
# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Mehefin 2014 Rhif 445 50c

## Chwalfa - a Chyfle i Chi




Capel Jerusalem, Bethesda oedd y lle i fod ddechrau'r mis wrth i Theatr Genedlaethol Cymru lansio eu cynhyrchiad diweddaraf, a'r cyntaf un i'w lwyfannu yn theatr newydd Pontio ym Mangor fis Medi.

Chwalfa fydd teitl y cynhyrchiad, addasiad Gareth Miles o nofel fawr T. Rowland Hughes, a Streic Fawr y Penrhyn yn gefndir iddi.

Roedd nifer o blant, pobl ifanc ac oedolion y Dyffryn yn cymryd rhan yn y cyngerdd lansio ar Fehefin 1af, gan gynnwys Lisa Jên, Gwyn Owen, Côr Meibion y Penrhyn (yn y llun) a disgyblion Ysgol Llanllechid. Roedd y cyfan dan arweiniad Neville Hughes.



Yn ystod y noson cyhoeddodd Cyfarwyddwr Artistig y Theatr Genedlaethol, Arwel Gruffydd, eu bod yn chwilio am unigolion lleol o bob oed i gymryd rhan yn y cynhyrchiad, a'u bod nhw am gynnal clyweliadau cymunedol, ym Methesda a Bangor, y penwythnos hwnnw.

Cyfle ardderchog, felly, i rai o bob oed fod ymhlith y cyntaf i droedio llwyfan newydd sbon Theatr Bryn Terfel!

Yn y clyweliadau, esboniodd Arwel Gruffydd mai chwilio am gorws a chast i actio mân rannau yr oedden nhw. Byddai'r actorion a gâi eu dewis yn rhannu llwyfan gyda 12 actor proffesiynol, a byddai cyfle i actio a chanu.

Pob lwc i'r rhai hynny ohonoch a aeth i'r clyweliadau. Gobeithio y gwelwn ni nifer o wynebau o'r Dyffryn ar lwyfan newydd Pontio pan fydd y cynhyrchiad yn agor ar 17 Medi.

Os ydych chi am sicrhau eich tocyn ar gyfer Chwalfa, cysylltwch â Pontio: 01248 382828 neu www.pontio.co.uk . Pris tocynnau: £15 / £12 / £10. Tocyn teulu i 4: £30. Mae'r tocynnau ar werth ers 17 Mehefin.

## Llongyfarchiadau Lu

Oes, mae yma dalent yn y Dyffryn, ac mae nifer o drigolion a phobl ifanc y Dyffryn yn dathlu'r mis hwn, fel y gwelwch ar dudalennau'r Llais.

Daeth llawer o'r llwyddiant yn sgil Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, a gynhaliwyd yn Y Bala. Llwyddodd nifer o blant a phobl ifanc yr ardal i ennill gwobrau yn yr Eisteddfod, mewn cystadlaethau a oedd yn amrywio o gelf a chrefft ac ysgrifennu rhyddiaith i actio a chanu'r delyn.




Llongyfarchiadau enfawr i Elis Evans, Mignant, Llanllechid ar ennill gwobr y perfformiwr mwyaf addawol yng nghaneuon actol yr ysgolion cynradd â thros gant o blant. Elis oedd Wil Cwac Cwac yng Nghân Actol liwgar Ysgol Llanllechid, ac roedd y floedd yn y Pafiliwn pan gyhoeddwyd ei enw yn werth ei chlywed! Gydag 14 o ganeuon actol ar y llwyfan, roedd camp Elis yn un go fawr.



Yr actor a'r cyflwynydd teledu Alun Elidyr oedd beirniad cystadleuaeth yr Ymgom i flynyddoedd 7, 8 a 9. Rhoddodd y wobr gyntaf i ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen am eu detholiad o'r nofel 'O Gymru Fach' gan Lleucu Roberts. Llongyfarchiadau calonnog i'r pedwar a gymerodd ran, sef Martha Glain, Sophie Williams, Buddug Roberts ac Owain Morgan. Gyda pherfformwyr o safon fel hyn yn ein bro, does rhyfedd bod y Theatr Genedlaethol eisiau i ni rannu llwyfan â nhw!

# Llais Ogwan

## PANEL GOLYGYDDOL


**Derfel Roberts** ☎ 600965
hylaw@btinternet.com

**Ieuan Wyn** ☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

**Lowri Roberts** ☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

**Dewi Llewelyn Siôn** ☎ 07901 913901
dewision@hotmail.co.uk

**Fiona Cadwaladr Owen** ☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

**Siân Esmor Rees** ☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

**Neville Hughes** ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan** ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard** ☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter W Williams** ☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk


### SWYDDOGION


**Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trefnydd Hysbysebion:**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co,uk

**Y Llais Drwy'r Post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com


## Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Siân Esmor Rees.

Golygydd mis Gorffennaf fydd Fiona Cadwaladr Owen, Bryn Meurig Bach, Coed y Parc, Bethesda, LL57 4YW. 01248 601592. Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 2 Gorffennaf, os gwelwch yn dda. Plygu nos Iau, 17 Gorffennaf, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.


**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**


## DYDDIADUR Y DYFFRYN

### Mehefin

24 Cangen Dyffryn Ogwen Plaid Cymru. Cefnfaes am 7.00

25 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.

28 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Caffi Coed y Brenin. 10.00 – 12.00

28 Garddwest y Tair Eglwys. Gardd Ficerdy Pentir. 1.00 – 4.00

30 Diwrnod Agored Cyfeillion Ysbyty Gwynedd. 29 Ffordd Ffrydlas. 10.00yb – 10.00yh.

### Gorffennaf

02 Te Mefus Capel Bethlehem Talybont. Y festri am 7.00

03 Sefydliad y Merched Carneddi. Gwibdaith Addysgiadol.

06 Sioe Wledig. Neuadd Goffa Mynydd Llandygái am 12.00

09 Cyngerdd Côr Rygbi Gogledd Cymru, Ysgol Llanllechid.

12 Marchnad Ogwen. Clwb Rygbi Bethesda. 10.00 – 2.00

12 Barbeciw, Eglwys y Gelli am 6.00

12 Aduniad Ysgol Dyffryn Ogwen 1965-1972, Gwesty'r Douglas.

17 Plygu Llais Ogwen. Cefnfaes am 6.45.

19 Taith Gerdded o Lyn Ogwen i Fethesda.

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwen

### Gwobrau Mehefin

| | |
|---|---|
| £20 (88) | Marion Owen, Rhiwfelen, Y Foel. Trallwm. |
| £20 (150) | Myfanwy Wyn Harper, Fferm Tŷ Newydd, Llandygái. |
| £10 (126) | Glenys Clark, Ffynnon Wen, Tregarth. |
| £5 (193) | Bronwen H Davies, Tyddyn Canol, Mynydd Llandygái |

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £5.00 | Mair Jones, Bryn Onnen, Ffordd Bangor, Bethesda. |
| £20.00 | Er cof annwyl am Rhiannon Rowlands oddi wrth Arthur, Olwen, Myrddin, Huw a'r teulu. |
| £30.00 | Er cof am David Evans, Coed y Parc, oddi wrth Lilian a Siân. |
| £350 | Cyngor Cymuned Bethesda. |

**Cywiriad (Rhoddion Mis Mai) gydag ymddiheuriadau!**

Dylai ail frawddeg rhodd (£5) gan Dafydd Pritchard, Rhes Elfed, ddarllen fel a ganlyn: "Hefyd er cof am ben-blwydd ei fab, Robert Werner Pritchard, a fuasai'n 43 mlwydd oed ar 26 Mai."

**Diolch yn Fawr**

## Y LLAIS YN 40

Bydd yn Llais yn 40 oed ym mis Hydref. Os oes gennych unrhyw eitem addas yr hoffech i'r pwyllgor ei ystyried ar gyfer atodiad arbennig y dathlu, cysylltwch â ni. Gallwch gysylltu ag unrhyw un o'r golygyddion.

## CALENDR LLAIS OGWAN 2015

**COFIWCH!**

Unrhyw luniau i'w hystyried ar gyfer Calendr 2015 i mewn erbyn diwedd Gorffennaf.
Mae nifer dda eisoes wedi cyrraedd, ond mae lle i lawer mwy.

Dafydd Fôn
14/4 Stryd y Ffynnon Gerlan
deifon@yahoo.co.uk

## Hysbysebu yn y Llais

I hysbysebu yn Llais Ogwen ac i drafod telerau a'ch holl anghenion cysylltwch â:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

## Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
☎ 01248 600184

## Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Gareth Llwyd ☎ 601415**
**Neville Hughes ☎ 600853**


**Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan**
@Llais_Ogwan

Cysodwyd gan **Tasg**,
50 Stryd Fawr Bethesda,
LL57 3AN ☎ 07902 362 213
**post@tasg.co.uk**

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669



**Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.**

# Annwyl Ddarllenwyr

**Annwyl Olygydd**

Yn yr wythnosau nesaf bydd blwyddyn 11 Ysgol Dyffryn Ogwen yn ffarwelio â'i gilydd ac yn gadael yr ysgol i ddilyn trywydd gwahanol e.e. i'r coleg / chweched. Er mwyn dathlu'r pum mlynedd diwethaf o fod yn ffrindiau, roeddem ni ym mlwyddyn 11 yn awyddus iawn i gynnal prom, er mwyn i bawb gael bod gyda'i gilydd am un noson olaf. Roeddem wedi casglu dros £1,000 i dalu am y lleoliad. Roeddem yn ei gweld yn anodd erbyn y diwedd i gasglu arian tuag at gost y bws. Gyda dim ond pythefnos i fynd roeddem yn ofni gorfod canslo'r prom. Mewn troad annisgwyl, fe wnaeth Mr Wayne Sherlock, tad un o'r genethod a oedd yn gyfrifol am drefnu'r prom gais drwy Facebook am gyfraniad gan bobl leol tuag at gost y bws. Rhoddodd Mr Sherlock y cyfraniad cyntaf. Ychydig o eiliadau wedyn, roedd mwy a mwy yn rhoi arian, gyda rhai yn cyfrannu cymaint â £40! Roedd yn sioc enfawr i weld pa mor hael yw pobl Bethesda.

Rydym yn ddiolchgar iawn am bob ceiniog rydym wedi ei derbyn, ac yn falch o ddweud y bydd y prom yn mynd yn ei flaen. Diolch enfawr i bawb a gyfrannodd! Mae haelioni'r gymdeithas yn ein gwneud ni'n falch iawn o fod yn How-Gets.

**Sioned Carran**

---

**Annwyl Olygydd**

Teimlaf fod raid i mi ysgrifennu i ddweud nad wyf fi, nac amryw eraill, yn hapus o gwbl gyda'r drefn newydd sydd bellach yn Swyddfa Bost Bethesda.

Yn y lle cyntaf, mae'r cownter mor fychan ac agored nes bod pawb yn clywed ac yn gweld eich busnes!

Roeddwn yn sefyll am 20 munud mewn ciw y dydd o'r blaen ac yn sylwi nad oedd dim preifatrwydd o gwbl i gwsmeriaid.

Oherwydd hyn clywais un person yn dweud ei bod yn ystyried mynd i Fangor i godi ei phensiwn. Wrth gwrs, pe byddai pawb yn gwneud hynny, fyddai yna ddim post o gwbl ym Methesda. Dwi ddim eisiau gweld hynny'n digwydd, ond rydan ni'n haeddu gwell ym Methesda!

**Ogwena Doyle,**
**30 Adwy'r Nant,**
**Bethesda**

**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 1DD**
**9 Mehefin, 2014**

**Annwyl Olygydd,**

Mae nifer fawr o bobl wedi mynegi gwrthwynebiad i Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 sydd yn pennu faint o dai newydd fydd yn cael eu codi yn y ddwy sir. Sail y pryder ydi bod y niferoedd wedi eu seilio ar amcanestyniadau twf poblogaeth sy'n cynnwys mewnlifiad, yn hytrach nag ar y gofyn lleol. Byddai hyn yn golygu gorddatblygu, a niweidio nodweddion ieithyddol a diwylliannol ein cymunedau.

Yn dilyn gwahoddiad i gydweithio efo Cyngor Gwynedd a chyflwyno awgrymiadau, cyfarfu cynrychiolaeth o Gymdeithas yr Iaith a Chylch yr Iaith â'r Cyng. Dyfed Wyn Edwards, Arweinydd y Cyngor, a'r Cyng. John Wyn Williams, Deilydd Portffolio Cynllunio, ar 20 Mai. Cyflwynwyd y rhaglen ganlynol i'r cyngor, a chafwyd addewid y rhoddir ystyriaeth deg a difrifol i'r gofynion:

1. Y Cyngor i gyfarwyddo'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i roi'r Cynllun Datblygu Lleol o'r neilltu hyd nes
a. bod pob cyngor cymuned/tref/dinas wedi derbyn yr holl wybodaeth berthnasol ar ffurf proffil cymunedol, ac wedi cael ail-gyfle i ystyried y tiroedd yn y gymuned y maent o'r farn y dylai Cyngor Gwynedd eu dynodi fel safleoedd posib i'w datblygu;
b. bod yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi ail-ystyried nifer y tai newydd fydd eu heisiau i ddiwallu anghenion cymunedol.
2. Paratoi proffiliau cymunedol ar gyfer holl gynghorau cymuned/tref/dinas Gwynedd a fydd yn cynnwys holiadur anghenion tai; proffil iaith; proffil demograffig; gwybodaeth ynghylch y nifer a'r mathau o dai sydd yn y gymuned; natur rhwydwaith ffyrdd ac isadeiledd; ystadegau eraill perthnasol i'r gymuned.
3. Yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith.
4. Sicrhau bod methodoleg wyddonol wedi ei chreu fel sail i'r gwaith ymchwil.
5. Sicrhau bod pob cyngor cymuned yn cael cyfle i gwblhau'r gwaith.
6. Sicrhau bod cefnogaeth strategol ac ariannol i'r cynghorau cymuned/tref/dinas.
7. Trafod gyda Chyngor Sir Ynys Môn i sicrhau bod y ddau gyngor sir yn cydweithredu ar y rhaglen uchod.

Holl ddiben cyflwyno proffiliau cymunedol i'r cynghorau cymuned/tref/dinas yw rhoi iddyn nhw wybodaeth gymunedol allweddol a fydd yn hysbysu'r broses o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd rhaid i hyn, felly, fod yn rhan annatod o'r broses. Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn ymateb cadarnhaol gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

Yn gywir,

**Osian Jones**
**(ar ran Grŵp Cynllun Datblygu Lleol)**

## Taith o amgylch y fro – gydag Arwyn Oliver

Mae rhai ohonoch wedi bod yn gweld eisiau'r erthygl gan Arwyn Oliver ar deithiau cerdded o amgylch y fro yn ddiweddar. Rydym yn falch o gyhoeddi y bydd rhagor o deithiau i'w gweld yn y Llais cyn bo hir ac yn diolch i Arwyn am ei gyfraniadau difyr.

Pan ddaw'r gair 'rysáit' i'r meddwl, mae pawb yn siŵr o feddwl am fwyd. Wel un gwahanol sy gen i y tro hwn - rysáit plannu blodau! Dyma beth sydd ei angen -




**Lleoliad**
safle heulog

**Cynhwysydd**
Hen fasged siopa wiail tua 15cm (6") o ddyfnder, 25cm (10") o led a 30cm (12") o lydan. Mae'n bwysig dros ben rhoi tair cot o farnis arni os am roi'r fasged allan.

**Yn blodeuo**
Mehefin tan y rhew cyntaf

**Y cynhwysion**
4 Pys Pêr byr, Lathyrus odoratus 'Pink Cupid'. Mae'r rhain yn fychan a chydag arogl hyfryd
9 planhigyn alyssum pinc Lobularia maritima 'Wonderland'
6 litr o gompost
Llond cwpan wy o ronynnau dal dŵr wedi eu cymysgu gyda'r compost (opsiynol)
Tameidiau o hen gynhwysion blodau polystyren ar y gwaelod er mwyn draeniad.
Plastig du i leinio'r fasged cyn plannu

**Dull**
Leinio'r fasged gyda'r plastig du a thorri 6 hollt yn y gwaelod er mwyn draeniad.
Rhoi tua 1" o'r tameidiau polystyren yn y gwaelod a'u gorchuddio â'r compost bron at ymyl y fasged. Ei bwyso i lawr yn ysgafn.
Plannu'r Pys Pêr yn y canol, a'r Alyssum o gwmpas yr ymylon gan sicrhau eu bod yn gadarn yn y pridd.
Digon o ddŵr, a rhoi'r fasged yn ei lle - gorau oll os bydd ychydig o'r llawr rhag i ddŵr gronni.

**Ôl-ofal**
Bydd angen cadw'r fasged yn llaith, ond gofalu rhag gor-ddyfrhau
Bydd hylif bwyd blodau o fantais bob rhyw 4 wythnos
Torri blodau marw er mwyn ehangu'r cyfnod blodeuo
Ar ddiwedd yr haf, ni ellir cadw'r blodau, ond bydd y fasged yn iawn am rysáit newydd y flwyddyn nesaf.

**Mwynhewch!**

**Cysylltwch trwy e-bost jan@erwlas.freeserve.co.uk**
**neu Mrs J Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN**

# Bethesda

**Llên Ogwen,**
Stryd Fawr, Bethesda
☎ **600431**

**Siop Kathy**
Stryd Fawr, Bethesda

**Fiona Cadwaladr Owen,**
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ **601592**

**Joe Hughes,**
Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ **601902**

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau cynnes i Siân a John, 4 Erw Las ar enedigaeth eu merch fach, Gwenno Mai, a anwyd ar 17 Mai.

**Cartref Newydd**
Croeso i Iwan a Sammy a symudodd i'w cartref newydd yn 5 Llidiart y Gwenyn yn gynharach eleni. Pob hapusrwydd i chi ar yr aelwyd newydd.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau calonnog i Sammy ac Iwan, 5 Llidiart y Gwenyn ar enedigaeth mab bach, Osian James, a aned ar 25 Ebrill. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.

Llongyfarchiadau i Nain a Taid hefyd, sef Tracey a Steven Martin, Hafan, Ffordd Bangor ac i Joyce Williams, Ffordd Bangor ar ddod yn hen nain i Osian James.

**Diolch**
Hoffai Iwan a Sammy ddiolch o waelod calon am bob caredigrwydd yn dilyn genedigaeth Osian. Diolch yn fawr am y cardiau, yr anrhegion a'r holl ddymuniadau da a gawsant gan bawb. Maen nhw'n ddiolchgar iawn.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Mrs Bet Owen, 12 Glan Ffrydlas, a gollodd ei chwaer, Mrs Mair Roberts, 27 Glan Ffrydlas, yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Bet Owen ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd ar achlysur marwolaeth ei chwaer. Diolch hefyd am y rhoddion er cof amdani, sydd bellach wedi eu trosglwyddo i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

**Gair o ddiolch**
Dymuna Gaynor Davies, Ffordd Ffrydlas, ddiolch yn fawr iawn i aelodau'r teulu, cyfeillion a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau da wedi iddi fod yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth.

**Ysbyty**
Cofion cynnes at y rhai sydd yn yr ysbyty. Da deall eich bod yn gwella'n raddol.
Mrs Ettie Evans, Glanffrydlas;
Mrs Joan Morris, Adwy'r Nant;
Mr Llyfnwy Lloyd, Glanogwen;
Mr John Roberts, Ffordd Pant;
Mr Dafydd Morris, Ffordd Abercaseg.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at y rhai a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar:
Mr a Mrs Thomas Jones a'r teulu, Rhos-y-coed, (colli Mrs Eirlys Gordon Jones, Rhiwlas.)
Mr a Mrs Alwyn Jones, Adwy'r Nant, a'r plant yn eu profedigaeth o golli nain annwyl yn Rachub.

**Marwolaeth**
Ar 9 Mai yn yr ysbyty, bu farw Miss Heddwen Thomas, 11 Maesygarnedd, yn 83 oed. Modryb a hen fodryb i Stephen, Peter, Christopher, Arwyn, Delyth, Iwan ac Osian. Cynhaliwyd ei hangladd i'r teulu yn unig yn Amlosgfa Bangor. Cydymdeimlwn â chi i gyd yn eich profedigaeth.

Yn yr ysbyty ar 9 Mai, bu farw Mr Donald Evan Pugh, Fflat 1, 72 Stryd Fawr Bethesda, yn 79 oed. Priod y diweddar Mrs Agnes Pugh, tad, tad-yng-nghyfraith, taid a hen daid. Cynhaliwyd ei angladd fore Gwener, 16 Mai, gyda gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

Yn ei gartref, 7 Llain-y-pebyll, ar 5 Mehefin, bu farw Mr David Hume Davies yn 64 oed. Priod annwyl Mrs Margaret Davies a thad Fiona a Hannah, taid caredig Daniel, Enlli, Jack, Luke, Sam a Ruby-Mai. Brawd annwyl Gwenda, Alun, Maureen, Mair a Keith a brawd-yng-nghyfraith ac ewythr. Cynhaliwyd ei angladd fore dydd Mercher, 11 Mehefin gyda gwasanaeth yng Nghapel Carmel, Rachub, a mynwent Coetmor. Yn arwain y gwasanaeth roedd y Parchedig Dafydd Coetmor Williams, gyda Mrs Helen Williams wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chi i gyd fel teulu yn eich colled fawr.

**Diolch**
Dymuna Joe, Ffordd Ffrydlas ddiolch i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd arbennig ar 4 Mai.

**Priodas**
Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Andrew Lomozik, Rhos-y-coed / Pen-y-bryn ar achlysur eu priodas ddydd Gwener, 30 Mai.

**Bad achub**
Cynhaliwyd bore coffi gan gyfeillion y bad achub yng Nghefnfaes fore Sadwrn, 31 Mai ac mae Julie yn dymuno diolch i bawb a ddaeth yno am baned a sgwrs. Cafwyd elw o £251 tuag at y gwaith da.

**Gair o ddiolch**
Dymuna Muriel Williams, Garneddwen, ddiolch yn fawr iawn i bawb, yn deulu, cyfeillion a chymdogion am ymweld â hi tra bu yn yr ysbyty ac wedi iddi ddod adref. Diolch am y blodau a'r anrhegion a dderbyniodd, a'r holl eiriau caredig.

## Ar ei feic

Yn ddiweddar llwyddodd Bryn, 12 Garneddwen i deithio ar ei feic yr holl ffordd o Gaergybi i Gaerdydd ar hyd Lôn Las Cymru. Cymerodd 5 diwrnod i gwblhau'r siwrnai 250 milltir gyda'i ffrind Clive, oedd awydd her wedi iddo dderbyn triniaeth i oresgyn canser y coluddyn. Hyd yn hyn mae eu taith wedi codi dros £2000 i elusen Bowel Cancer UK a dymuna Bryn ddiolch i'r rhai sydd eisoes wedi'i gefnogi. Os oes rhywun yn dymuno rhoi mae'n bosibl cyfrannu o hyd ar wefan 'Just Giving' lle ceir lluniau o'r daith: www.justgiving.com/Tour-de-Cymru. Mae'n siŵr fod Lleucu ac Anest yn falch iawn o Dad!



**Bryn efo Anest a Lleucu**

## Gorffwysfan

Ddydd Gwener, 7 Mai, cafwyd gwibdaith i Erddi Gordale a Phenbedw. Cafwyd diwrnod da a phawb wedi mwynhau. Diolchwyd am y trefniadau gan Mr Elfed Bullock.

Ar ddydd Sul, 25 Mai, bu farw ein Cadeirydd Mr Eric Jones, Braichmelyn, yn 80 oed. Priod annwyl Mrs Elna Jones a thad gofalus i Siân a Gwyn. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Gwener, 30 Mai, gyda gwasanaeth yn Eglwys Sant Deiniol, Llanddeiniolen, lle roedd Eric yn aelod ffyddlon, ac yna ym mynwent Coetmor. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Ddoctor Carol Roberts a'r Parchedig Christina McCrea, gyda Dr William Munro wrth yr organ. Roedd yr eglwys yn llawn o deulu a chyfeillion, ac felly yr oedd ym Mynwent Coetmor hefyd.

Roedd Eric yn berson hoffus iawn, yn hoff o sgwrs â phawb, ac roedd yn aelod o Gorffwysfan ac yn gadeirydd ers sawl blwyddyn. Cydymdeimlwn â chi Elna, Siân a Gwyn a'r teulu i gyd yn eich hiraeth.

Diolchwn i Mr Elfed Bullock (Is-gadeirydd) am ei waith tra roedd Eric yn sâl ac am gadeirio'r clwb yn ei le.

Cofion at yr aelodau sy'n sâl.

Cynhelir y wibdaith nesaf ddydd Mercher, 2 Gorffennaf, pan awn i Southport. Cofiwch alw yng Ngorffwysfan i roi eich enw ar y rhestr.

**Bore Coffi Gorffwysfan**
Cafwyd bore coffi llwyddiannus iawn fore Sadwrn, 7 Mehefin, yng Nghefnfaes. Cafwyd raffl ardderchog, a diolch i Dafydd a Vernon am gasglu'r gwobrau. Diolchodd y Cadeirydd, Mr Elfed Bullock, am eu help yn y bore coffi ac am yr holl wobrau. Gwnaethpwyd elw o dros £300.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:**

**Sul Cyntaf pob mis:**
Cymun Bendigaid 8.00am, Boreol Weddi 11.00am
**Ail a thrydydd Sul pob mis**: Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am
**Pedwerydd Sul pob mis** - Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am
**Pumed Sul** - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandygái a Phentir (Lleoliad i'w gyhoeddi)

**Pob bore Mercher** am 10.30am - Cymun Bendigaid

**Arch Noa** - Clwb bach yw hwn ar gyfer plant bach cyn oed ysgol. Mae'n cyfarfod yn Ysgol Abercaseg bob bore Llun am 9.15am

Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau uchod.

Anfonwn ein cofion at bawb sy'n dioddef o unrhyw anhwylder gan obeithio y daw adferiad buan i chi i gyd.

## Yr Eglwys Unedig

*' Pan y gwelwch ddraenen wen*
*A gwallt ei phen yn gwynnu,*
*Mae hi'n gynnes dan ei gwraidd*
*Cei hau dy haidd bryd hynny.'*

Cofiwn a bendithiwn yr aelodau a'n cyfeillion sydd dan unrhyw anhwylder, mewn ysbyty, cartref preswyl neu yn eu cartrefi. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau cywiraf atynt i gyd. Collasom aelod arall y mis hwn, sef Miss Heddwen Thomas, Maes y Garnedd. Tristwch o'r mwyaf oedd deall fod Mrs Elna Jones hefyd wedi colli ei gŵr, Mr Eric Jones. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r ddau deulu yn eu tristwch. Cofiwn yn arbennig am Mrs Ettie Evans, 10, Glanffrydlas sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddi.

Ar y 6ed o Fai, cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi dan ofalaeth Gwenno Evans. Cawsom fyfyrdodau diddorol gan Y Parchedig John Owen a Gwenno ar y thema Cymorth Cristnogol i gyfeiliant Eileen. Yn ychwanegol, derbyniasom gyfraniad diddorol gan aelodau o Glwb yr Ieuanc. Gwelsom ffilm ar Dde Sudan, parti canu i gyfeiliant Menai a llefaru gyda phwyslais ar 'Fyw am £1 y dydd'. Cawsom ein hatgoffa hefyd o bwysigrwydd y Banc Bwyd a chafwyd cyflwyniad clodwiw ganddynt yn Eglwys Seilo, Caernarfon ar yr 21ain.

Ar yr 8fed, aeth taith 'Y Gymdeithas' i Foelfre dan drefniant Minnie a Heulwen.
Dyma oedd trefn y noson:
- Darlith hynod ddiwylliedig dan y teitl 'Milgi Chwim Y Weilgi' (Y Royal Charter) gan Y Parchedig Ddr Huw John Huws yng nghapel Carmel yno.
- Cerdded yr arfordir i weld yr union lecyn ble drylliwyd Y Royal Charter ar greigiau Moelfre yn 1859, a'r Hindlea gan mlynedd i'r diwrnod yn ddiweddarach yn 1959 yn yr union fan.
- Cael gweld ac edmygu Cofeb Efydd o Richard Evans, cyn-gocsyn enwog Y Bad Achub, a lwyddodd i achub holl griw'r Hindlea.
- Swper yn 'Y Tavern', Traeth Coch.

Llongyfarchion: Llongyfarchiadau i Mrs Myfanwy Jones, Gwernydd ar ddod yn hen nain unwaith eto.

**Adnod y mis:**
"Os ydych yn fy ngharu i, fe gadwch fy ngorchmynion i." Ioan 14.15

**Oedfaon i ddod**
**Mehefin**
22 Mr T. Alun Williams
29 Parch. R.O. Roberts
**Gorffennaf**
06 Ms Karen Owen
13 Parch. Geraint Hughes

## CAPEL BETHANIA

**06 Gorffennaf:**
Y Parchedig Reuben Roberts
**20 Gorffennaf:**
Y Parchedig Gwynfor Williams

**Dechreuir am 5.30**

**Croeso Cynnes i Bawb**

## Nant Ffrancon

**Capel Nant y Benglog**

**Trefn Gwasanaethau**

**Mis Mai**
18 Sheila a Haf i drefnu
25 Y Barchg Carys Ann

**Mis Mehefin**
22 Mrs Mair Penri Jones
29 Parch. Cledwyn Williams

**Mis Gorffennaf**
06 Nest i Drefnu

**Croeso i bawb am 2 o'r gloch**

## Sefydliad y Merched, Carneddi

Ar noson braf iawn, sef nos Iau, 5 Mehefin, croesawodd ein llywydd, Margaret Williams, yr aelodau i gyfarfod y sefydliad. Anfonodd ein cyfarchion at y rhai oedd yn methu bod gyda ni gan ddymuno gwellhad i rai sydd heb fod yn teimlo'n rhy dda yn ddiweddar. Darllenwyd cofnodion mis Mai gan Jean Hughes ac fe ddarllenodd Margaret Williams gynnwys y llythyr misol.

Ein gwraig wadd am y noson oedd Audrey Jones o Langefni. Hi yw cadeirydd Sefydliad y Merched Ynys Môn, ac mae'n weithgar iawn yn y sefydliadau. Daw yn wreiddiol o Fetws Gwerful Goch, ond ar ôl priodi mae hi bellach yn byw yn Sir Fôn. Testun ei sgwrs oedd hel achau, ac yn benodol achau ei theulu hi ei hunan. Fe gymerodd 30 mlynedd i gael y goeden deuluol yn gyflawn drwy siarad gyda'r teulu, yn arbennig holi ei nain. Hefyd, aeth i archifdy Dolgellau a chrwydro mynwentydd, a llwyddodd i fynd yn ôl cyn belled â darganfod ei bod yn perthyn i neb llai nag Owain Glyndŵr.

Cawsom noson ddifyr iawn yn ei chwmni yn egluro sut yr aeth ynglŷn â'r gwaith cywrain yma o hel achau. Yr oedd rhai o'r aelodau yn ei holi am y ffordd i fynd o gwmpas y dasg yma o greu coeden deuluol. Pwy a ŵyr? Efallai bod rhai o'r aelodau'n perthyn i rywun enwog! Dydach chi byth yn gwybod!

Diolchwyd i Audrey Jones gan Rita Bullock ac i'r merched am y baned. Enillwyd y wobr lwcus, rhoddedig gan Gwyneth Morris, gan Violet Williams.

## Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Cofiwch am y diwrnod agored yng nghartref Eira a Joe, 29 Ffordd Ffrydlas, ddydd Llun, 30 Mehefin o 10.00 y bore tan 10.00 yr hwyr. Pris £1.00. Croeso cynnes i bawb.

Dymuna Cyfeillion Ysbyty Gwynedd ddiolch yn fawr iawn am bob rhodd.

### Mae Cyfeillion Ysbyty Gwynedd wedi addo gwerth dros £77,000 o eitemau ar gyfer yr ysbyty ers 2011. Yr eitemau hyn yw:

| | |
|---|---|
| *Hungry Manikin*, sy'n caniatáu i nyrsys a theuluoedd cleifion ymarfer defnyddio porthiant drwy diwbiau | £674.00 |
| Gwelyau sy'n plygu ar gyfer wardiau'r plant | £468.65 |
| Peiriant Finomedr MIDI fel rhan o ymchwil i *Obstructive Sleep Apnoea* | £22,265.00 |
| Torwyr Cast, thermomedr is-goch a pheiriant fasgwlaidd Dopler ar gyfer y clinig traed diabetig | £ 3,473.44 |
| Peiriannau golchi a sychu ar gyfer wardiau'r plant | £ 4,047.60 |
| Dodrefn ar gyfer yr ardal brofedigaeth | £ 1,137.64 |
| Cyfraniad i ymddiriedolaeth Pod, sy'n darparu adloniant i wardiau'r plant | £600.00 |
| Cyfrifiadur a meddalwedd ar gyfer Radio Ysbyty Gwynedd | £600.00 |
| Cadair bariatrig ar gyfer Ward Cybi a'r Uned Dibyniaeth Uchel | £2,960.00 |
| Peiriant gwnïo ar gyfer yr Uned Therapi Galwedigaethol | £180.00 |
| Ysgogydd Cyhyrau digidol ar gyfer yr uned Strôc Lem | £97.66 |
| Wii a Bwrdd Balans ar gyfer yr Uned Strôc Lem | £199.00 |
| Eitemau ar gyfer Cornel y Plant yn yr Uned Ddamweiniau a Brys | £725.00 |
| Resectosgop ar gyfer y Theatr Wroleg | £15,000.00 |
| Colosgop i Gynaecoleg ac Oncoleg | £11,500.00 |
| Offer fasgwlaidd ar gyfer Ward Dulas | £2,535.00 |
| Sganiwr pledren i Ward Conwy | £8,000.00 |
| Ophalmosgop ar gyfer Uned Gofal Arbennig i Fabanod | £2,780.00 |
| | **£77,242.99** |

# Rachub a Llanllechid

**Dilwyn Pritchard,**
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ **601880**

**Llongyfarchiadau**
i Lowri Williams, Bryneithin, ar gael gradd nyrsio 2.1. Pob dymuniad da i'r dyfodol oddi wrth y teulu i gyd.

**Cydymdeimlo**
Daeth y newydd am farwolaeth Mrs Avril Williams, Lôn Groes yn ddychryn i'r ardal, a hithau ond yn 66 mlwydd oed. Er bod Avril wedi derbyn triniaethau dros y blynyddoedd diwethaf daliodd i frwydro ymlaen nes ymddeol ryw ddwy flynedd yn ôl o'i gwaith fel nyrs yn Ysbyty Gwynedd, lle bu'n gwasanaethu am flynyddoedd. Un o Lanfairfechan oedd Avril a symudodd i Rachub pan briododd â'r diweddar Gwilym Williams, yn gymeriad tawel a boneddigaidd bob amser. Anfonwn ein cydymdeimlad at Derfel, Nia a'u teuluoedd ac i'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Gyda'r Llais ar fin mynd i'r wasg daeth y newydd trist am farwolaeth Dafydd Davies (Dafydd Broadway), Llain Pebyll, Bethesda fel cryn sioc i'r ardal ac yntau ond yn 64 mlwydd oed. Er ei fod ef a'i wraig, Margaret wedi ymgartrefu ym Methesda, gyda Maes Bleddyn y cysylltir Dafydd. Hogyn swil, bonheddig oedd Dafydd, a phêl-droed wedi chwarae rhan fawr yn ei fywyd. Cofir ef fel golwr i dîm llwyddiannus Llechid Celts am gyfnod ac fe'i cysylltir â nifer o glybiau lleol eraill. Cafodd dreialon gyda nifer o glybiau proffesiynol yn Lloegr ond yr un oedd eu hymateb, sef ei fod yn rhy fach. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at yr holl deulu.

**Gwella**
Da clywed bod Susan Murphy, Bron Bethel yn gwella wedi iddi gael damwain yn ddiweddar. Mae Susan yn weithgar gyda'r henoed yn yr ardal.

**Clwb Hanes**
Nos Fercher, 25 Mehefin am 7.00 o'r gloch yn Festri Capel Carmel bydd cyfarfod arferol o'r Clwb. Mae croeso mawr i chi yno a dyma'r cyfle olaf i ddod â lluniau, llythyrau neu unrhyw wybodaeth hanesyddol am Rachub a Llanllechid cyn yr Arddangosfa ddydd Sadwrn, Mehefin 28. Mae ymateb arbennig wedi ei dderbyn ac mae'n argoeli y bydd yn arddangosfa werth chweil. Mae dros 400 yn edrych ar luniau ar dudalen Facebook y Clwb yn rheolaidd. Dyma fydd gweithgaredd olaf y Clwb am yr haf a bydd y cyfarfodydd yn ail-ddechrau ym mis Medi. Gobeithiwn eich gweld yno.

## Capel Carmel, Llanllechid

**Clwb Gwau**
I gloi gweithgareddau'r tymor cawsom ein taith flynyddol i Lannerch y Môr (Abakhan) i siopa a chael cinio yno. Ar y ffordd adref fe arhosom am ychydig ym Mae Colwyn yn y Ganolfan Siopa yno.

Erbyn hyn mae'r plancedi a gafodd eu gwau gan y merched dros y gaeaf wedi cyrraedd pen eu taith - Plas Ogwen.



**Dyma lun o Liz yn derbyn plancedi gydag Eirian a Dilys. Mae Eirian yn aelod ffyddlon o'r Clwb Gwau a Dilys wedi bod yn gwau sgwariau lliwgar ers blynyddoedd. [**

**Yr Ysgol Sul a'r Clwb Dwylo Prysur**
Llongyfarchiadau mawr i'r plant a'r bobl ifanc am eu gwaith trylwyr dros y flwyddyn. Buont yng Nghymanfa'r Ysgolion Sul a gynhaliwyd eleni ym Mhendref, Bangor ar Fai 18. Derbyniodd pob un ohonynt dystysgrif a gwobr ariannol am eu gwaith.

Yn Amana, Mynydd Llandygai y cynhaliwyd Cymanfa Ganu'r hwyr. Llywydd y Gymanfa oedd Joe Hughes a Mrs Rhian Roberts yn arwain y canu. Cawsom eitemau gafaelgar gan blant ysgolion Bodfeurig a Thregarth.



**Dyma rai o aelodau'r Ysgol Sul gyda'u gwaith llaw ar thema Arch Noa.**

**Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid**

**Arddangosfa hen luniau, llungopïau o bapurau newydd a llythyrau personol am bobl yr ardal, mapiau ac atgofion.**

Festri Capel Carmel
Dydd Sadwrn, 28 Mehefin, 2014
Bydd yr arddangosfa ar agor rhwng 10 a 4 o'r gloch.

Mynediad: £1.
Dewch yn llu.

## Capel Bethel
### Trefn Gwasanaethau

**Mehefin**
22 Dr Tudor Ellis
29 Parch. Hugh John Hughes

**Gorffennaf**
06 Mr Dafydd Iwan
13 Gweinidog
20 Parch. Dafydd Job
27 Nerys Griffiths

**Oedfaon am 2.00 o'r gloch.**
**Croeso cynnes i bawb.**

## Carmel, Llanllechid
### Trefn Gwasanaethau

**Mehefin**
22 Mr J.O. Roberts 5.00
29 Parch. Geraint Hughes 5.00

**Gorffennaf**
06 Parch. G. Roberts 5.00
13 Parch. T. Roberts 5.00
20 Canon Idris Thomas 5.00

**Ysgol Sul:** 10.30 y bore
**Dwylo Prysur**: Nos Wener 6.30 pm

**Croeso cynnes i bawb**

**Llwyddiant Steddfod yr Urdd**
Dw i'n siŵr y cawn fel trigolion longyfarch plant ac aelodau staff Ysgol Llanllechid ar eu gwaith yn ystod 'Steddfod yr Urdd. Llongyfarchiadau arbennig i Elis Evans, Mignant ar ennill tlws y perfformiwr gorau yng nghystadleuaeth y caneuon actol ar y nos Lun. Llongyfarchiadau hefyd i Martha Glain, chwaer Elis, sy'n ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen, ar ennill dwy wobr yn yr adran gelf a chrefft, sef gwobr gyntaf am waith celf 3D, ac ail wobr am waith lluniadu.

Roedd Martha, ynghyd â Sophie, Maes Bleddyn, Owain, Park Villa a Buddug, Tregarth hefyd yn aelod o'r ymgom fuddugol ar gyfer blynyddoedd 7, 8 a 9. Ardderchog, wir!

**Ysbyty**
Anfonwn ein cofion at nifer sydd wedi derbyn triniaethau mewn ysbytai'n ddiweddar. Yn eu plith mae Mrs Augusta Williams ac Erin Bryn, Bron Arfon, Ronald Evans, Enlli a Griff ac Eirwen Williams, Ffordd Llanllechid.

**Taith Gerdded**
Cofiwch am daith gerdded flynyddol Ann a Raymond Tugwell. Dydd Sadwrn, 19 Gorffennaf yw'r dyddiad a bydd yr arian a gesglir yn cael ei rannu rhwng Gofal Cancr a Lewcemia mewn plentyndod ac Apêl Siôn Guto, sy'n disgwyl trawsblaniad iau. Gallwch gyfrannu neu gael mwy o wybodaeth gan Raymond ar 01248 601077.

# Braichmelyn

**Rhiannon Efans,**
Glanaber, Pant, Bethesda
☎ **600689**

**Cydymdeimlad**
Brawychwyd yr ardal gyfan pan glywyd am farwolaeth sydyn ac annisgwyl Sarah Bonner Sewell, 1 Rhes Jâms, ar 11 Mai. Gweithiai Sarah yn Siop Spar ar y Stryd Fawr ers blynyddoedd ac yr oedd yn fawr ei pharch gan bawb. Hoffai gerdded, a mynychu'r boreau coffi ar y Sadwrn. Bydd colled fawr ar ei hôl am hir iawn, yn enwedig i'w phartner Michael, eu mab, John, ei mam, Gaynor a'i llystad, Ken a'i chwaer Rachel a theulu bach Penygraig.

Cynhaliwyd yr angladd yn yr Eglwys Unedig, Jerusalem, lle daeth tyrfa ynghyd i dalu'r deyrnged olaf iddi, ac i ddilyn yn yr amlosgfa. Anfonwn ein cofion at Michael a'r teulu i gyd yn eu colled a'u galar.

**Profedigaeth**
Un arall o'n trigolion a fu farw, ar ôl cystudd blin, oedd Mr Eric Jones, 6 Cefn Cwlyn. Cafodd ofal tyner gartref gan ei briod, Elna, a Siân a Gwyn y plant, ond bu farw'n dawel yn Ysbyty Gwynedd.

Roedd pawb yn adnabod Eric fel dyn parchus oedd â sgwrs a gwên bob amser. Bu'n gweithio yn y chwarel tan ei ymddeoliad ond hefyd ar y Bysus Porffor. Rydym wedi ei golli'n mynd am dro ers amser ac roedd wrth ei fodd yn cael ymweliadau yn ei gartref. Ef oedd cadeirydd Clwb Gorffwysfan hyd y diwedd.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Elna, Siân a Gwyn a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**Cofion**
Rydym yn gyrru ein cofion at Nita Jones, Braichmelyn, sydd wedi derbyn triniaeth ar ei llygaid yn ddiweddar. Pob dymuniad da am wellhad llwyr a buan ichi, Nita.

# Y Gerlan

**Ann a Dafydd Fôn Williams,**
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ **601583**

**Nain a thaid**
Llongyfarchiadau i Rhiannon a Martin Sturrs, Stryd y Ffynnon, ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd wyres, Emily Non, i'w merch, Lisa, a'i gŵr, Ryan, sydd yn byw yn Abercaseg. Mae Emily yn chwaer fach newydd i James, Ela, Anthony, a Cian, ac mae pawb wedi gwirioni efo'r fechan.

**Brysia wella**
Rydym yn falch o weld Myfanwy Owen, Stryd y Ffynnon, adref wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn derbyn llawdriniaeth. Rydym yn dymuno gwellhad llwyr a buan iti, Myfanwy. Cymer bethau'n ysgafn am dipyn rŵan.

**Diolch**
Hoffai Myfanwy Owen, Stryd y Ffynnon, ddiolch i deulu, ffrindiau, a chymdogion am yr holl arwyddion o garedigrwydd a dymuniadau da, yn gardiau, galwadau ffôn, ymweliadau a rhoddion, a dderbyniodd yn ystod ei chyfnod diweddar yn yr ysbyty. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd.

**Genedigaeth**
Rydym yn llongyfarch Lisa a Gwion Williams, Stryd y Ffynnon, ar enedigaeth mab, Jac Wyn, brawd bach i Aaron ac Osian. Rydw i'n siŵr eich bod i gyd fel teulu wrth eich boddau efo'r aelod bach diweddaraf.

**Adref o'r Ysbyty**
Braf yw gweld Delyth Robinson, Ciltrefnus, adref wedi cyfnod yn yr ysbyty. Rydym i gyd yn dymuno'r gorau iti, Delyth, ac yn edrych ymlaen at dy weld o gwmpas yr ardal unwaith eto.

**Diolch**
Hoffai Delyth Robinson, Ciltrefnus ddiolch i'w ffrindiau a'i chymdogion am yr holl gardiau, galwadau ffôn a blodau a dderbyniodd yn sgil ei salwch diweddar. Mae'n gwerthfawrogi pob un yn fawr.

**Dyweddïo**
Llongyfarchiadau i Jess Arthur a Siôn Elwyn Doyle, gynt o'r Tyddyn Du, Gerlan, ond yn awr o Ysgoldy, Stryd Britannia, Rachub, ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Mae'r cyfarchion a'r dymuniadau gorau'n dod gan y teulu i gyd.

**Cofion**
Rydym i gyd yn gyrru ein cofion at Rhian Jones, Ffordd Gerlan, sydd wedi dod adref ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty. Pob dymuniad da iti gan bawb o'r ardal, Rhian.

**Gwella**
Treuliodd Tecwyn Hughes, Ffordd Gerlan, gyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Braf yw ei weld yn ei ôl adref, ac o gwmpas y pentref. Rydym i gyd yn dymuno'r gorau ichi am wellhad llwyr, Tecwyn.

**Damwain**
Cafodd Mark Briggs, Stryd y Ffynnon, ddamwain gyda'i feic yn ddiweddar, a thorrodd ei fraich. Rydym yn dymuno'r gorau iddo, gan obeithio am adferiad buan, er mwyn i ni gael gweld Mark o gwmpas efo'i feic yn fuan iawn eto. Pob hwyl, Mark.

**Ras Bywyd**
Llongyfarchiadau i Mared Roberts, Ffordd Gerlan, ar gwblhau'r ras, Ras Bywyd, yng Nghaernarfon yn ddiweddar, er mwyn codi arian at ymchwil cancr. Da iawn chdi, Mared, a phawb arall a fu'n cymryd rhan yn y ras hon i godi arian at achos mor deilwng.

**Adref**
Treuliodd Len Williams, Ffordd Gerlan, gyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Braf yw dweud ei fod adref unwaith eto. Rydym oll yn gyrru ein dymuniadau gorau ichi, Len, gan ddymuno gwellhad llwyr a buan i chi.

**Cydymdeimlo**
Rydym yn cydymdeimlo gyda Bethan Jones a David Môn Hughes, Stryd y Ffynnon, yn eu profedigaeth ddiweddar. Bu farw ewythr Bethan, y diweddar Eric Jones, oedd yn byw ym Mraichmelyn.

## Teyrnged i'r Dr Tudor Davies

Trist oedd clywed yn ddiweddar am farwolaeth y Meddyg Tudor Davies o Gaerdydd.

Bu'r ddau ohonon ni'n ddisgyblion yn nosbarth Miss Lewis yn Ysgol y Gerlan yn y pedwardegau ac yn dipyn o ffrindiau bryd hynny.

Un o feibion Mr a Mrs Huw Davies oedd Tudor. Roeddent yn byw yn Siop Berth fel y'i gelwid - Siop Plews yn ddiweddarach.

Roedd mam Tudor, Mrs Gwladys Davies yn chwaer i'r diweddar Mrs Flo Jones, 25 Ffrydlas Road.

Symudodd y teulu o'r Gerlan i Bwllheli tua diwedd y pedwardegau ac fe gollais gysylltiad â Tudor yr adeg hynny ond roeddwn yn clywed am ei hynt a'i helynt o dro i dro gan ei gefnder, Mr Gareth Jones.

Roedd Tudor yn arbenigwr ar afiechydon y galon yng Nghaerdydd. Yn angladd Mrs Flo Jones y gwelais i Tudor ddiwethaf ac roeddwn yn hynod falch o'i weld. Bu yna dipyn o sgwrsio am yr hen ddyddiau yn nosbarth Miss Lewis a hel atgofion am chwarae yng ngardd fy nghartref yn Gwernydd.

Braf yw meddwl fod bachgen o ddosbarth Miss Lewis o Ysgol y Gerlan wedi llwyddo i fod yn Arbenigwr Meddygol.

**Gilbert Bowen**

# Talybont

**Neville Hughes,**
14 Pant, Bethesda
☎ **600853**



**Llwyddo yn Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i Beca Nia, 36 Bro Emrys, ar ddod yn gyntaf trwy Gymru yn Eisteddfod yr Urdd a gynhaliwyd yn Y Bala. Y gystadleuaeth oedd Rhyddiaith Blwyddyn 7, ac fe benderfynodd Beca ysgrifennu llythyr yn ymwneud â chwedl Llyn Cororion.

Cafodd ei ffilmio'n darllen ei gwaith yng Nglan-llyn a dangoswyd y fideo ohoni ar sgrin yn y Cwtsh Cymraeg ar y Maes. Yn y llun ar y chwith, dyma Beca efo'i medal a'i thystysgrif.

**Ymgyrch i Gadw Gwasanaeth Bws Ysgol Talybont**
Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn festri Bethlehem ar ddechrau'r mis gyda golwg ar ymgyrchu yn erbyn torri bws Ysgol Llandygai i blant o Dalybont. Arweinydd yr ymgyrch yw Dyfed Jones, ac fe ddymunwn yn dda iddo ef a'r criw gyda'u hymdrechion i gadw'r gwasanaeth.

## Eglwys Maes y Groes, Talybont

**Rhif lwcus!**
Yn dilyn "Cinio Nadolig" y tair eglwys ym mis Chwefror, cyflwynodd perchennog Gwesty'r Bulkeley, Biwmares, docyn i rywun gael te prynhawn yna. Tynnwyd y rhif lwcus yn ystod bore coffi yn yr Ysgoldy, a'r enillwyr oedd Cora a Howard Hutchinson, Felin Cochwillan. Llongyfarchiadau - mwynhewch!

**Cydymdeimlad**
Cynhaliwyd angladd Mrs Nellie Wroe ym Maes y Groes ar 2 Mai. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y cyn Ddeon, y Tra Pharchedig Trevor Evans, gyd Martin Brown wrth yr organ. Rhoddwyd i orffwys ym mynwent yr Eglwys. Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu'r Groeslon, Tal-y-bont.

**Bedydd**
Yn ystod y Gwasanaeth Teuluol ar y Sul cyntaf o fis Mai, dan ofal ein Ficer, y Parchedig John Matthews, gyda Geraint Gill wrth yr organ, bedyddiwyd Macie May Owena, merch fach Darren a Gemma o Langefni. Ar Sul olaf y mis, eto dan ofal ein Ficer a gyda Barry Wynne wrth yr organ, bedyddiwyd Woody Noah, mab Andrea a Dan Hutchinson-Smith o Wakefield ac ŵyr i Cora a Howard Hutchinson, Felin Cochwillan. Balch oeddem o weld Andrea wedi gwella mor dda yn dilyn gwaeledd difrifol. Yn ystod y gwasanaeth, cawsom ein diddori gan gôr "Threnody", y mae Cora yn aelod ohono, yn canu "Alleluia" (Canon Pachelbel tr. Robert Gass) a "Si hei lwli 'mabi". Hoffem ddymuno'n dda i'r ddau deulu.

**Stondin Elusen**
Diolch i Dorothy a Catrin am drefnu stondin yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Gwnaed elw o dros £75 tuag at yr Eglwys

**Garddwest y Tair Eglwys**
Cynhelir Garddwest yn Ficerdy Pentir ar ddydd Sadwrn olaf y mis, 28 Mehefin, rhwng 1 a 4 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb - dewch yn llu i fwynhau hwyl a chwmni, cystadlaethau, lluniaeth a "Boddi'r Ficer"!

## Capel Bethlehem Talybont
### Oedfaon y Sul

**Mehefin**
22 I'w gyhoeddi
29 Parch. Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon

**Gorffennaf**
06 I'w gyhoeddi
13 Parch. Geraint S. R. Hughes, Pwllheli
20 Parch. Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan.

**Oedfaon am 2.00**
**oni nodir yn wahanol.**
**Croeso cynnes i bawb.**

# Carneddi

**Derfel Roberts,**
Ffordd Carneddi, Bethesda
☎ **600965**

**Pencampwr**
Llongyfarchiadau i Chloe Roberts, merch Michael Roberts Ffordd Carneddi, ac wyres Pat a John, Ffordd Pant, Bethesda, ar ddod yn bencampwr iau Cymru mewn llofneidio (horse vaulting) yn y gystadleuaeth yn Llaneurgain, Yr Wyddgrug, ddechrau Mehefin. Llongyfarchiadau mawr oddi wrth y teulu i gyd.

**Gweld Sêr**



Ar ôl cerdded i lawr o Lyn Ogwen gyda'u neiniau aeth Nel (ar y chwith) Llifon a Carys i fyny at Cath yn y Wifren Wib (Gwlad Zip Eryri) i gael byrgyr. Pwy welsant yn disgwyl am luniaeth hefyd ond Matt Dawson, y cyn chwaraewr rygbi rhyngwladol dros Loegr a Phil Tufnell y cyn chwaraewr criced rhyngwladol. Mae Phil Tufnell bellach yn gyflwynydd teledu ar y "One Show" ac mae Matt Dawson hefyd ar y teledu fel yn un o'r sylwebyddion cyson ar gemau rygbi rhyngwladol. Tipyn o sgŵp i'r tri o Fethesda onide?

## Eglwys Sant Tegai

**Ysbyty**
Anfonwn ein cofion anwylaf a'n dymuniadau da i'r Parchedig J. Aelwyn Roberts, sydd yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn damwain gas pan syrthiodd yn y tŷ a thorri asgwrn ei glun. Bu Hefina yn ymweld ag ef ac roedd mewn hwyliau reit dda ac yn holi am yr eglwys. Mae'n anodd meddwl fod Mr Roberts yn yr ysbyty gan ei fod wedi bod mor iach ar hyd ei oes ac yn cerdded at y castell drwy bob tywydd – brysiwch wella.

Dymunwn wellhad buan i Jane Couch, Gwynne Edwards, Siôn Evans, Jackie Williams, Keith a Linda Irons a phawb arall sydd yn cwyno hefyd.

**Pen-blwydd**
Rydym yn anfon ein dymuniadau da at Hefina Chamberlain a fydd yn dathlu ei phen-blwydd ddydd Mercher, 25 Mehefin. Hwyl fawr i chi Hefina.

Llongyfarchiadau hefyd i Huw Llewelyn Jones a fydd yn dathlu ei ben-blwydd ddydd Llun, 30 Mehefin, a gobeithio y cei amser hapus Huw.

**Te Bach**
Aeth tua hanner dwsin o aelodau Sant Tegai i'r Te Bach yn Eglwys y Gelli, Tregarth ddydd Mawrth, 27 Mai, a bu'n brynhawn difyr fel arfer. Diolch i Rosemary, Sue a Rhian am wneud y teisennau blasus. Roedd yn anodd iawn dewis gan fod pob un yn edrych mor ddeniadol. Roedd Ceri yn brysur iawn, gan mai hi oedd yn derbyn y tâl ac yn gwerthu ticedi raffl. Yr elw oedd £125. Diolch yn fawr i John a Sue Matthews am eu croeso; roeddem yn falch o'u gweld yn ôl yn saff ar ôl eu gwyliau yn Sisili.

**Hysbysiad**
Cynhelir gwerthiant drwy'r dydd (er budd Eglwys Sant Tegai) yn Ysbyty Gwynedd ddydd Gwener, 20 Mehefin.

Bydd Garddwest y Tair Eglwys yn cael ei chynnal yn y Ficerdy, Pentir ddydd Sadwrn, 28 Mehefin – 1.00 o'r gloch tan 4.00. Dewch yn llu.

# Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

**Gwaeledd**
Rydym yn cofio am y cleifion y mis hwn eto: Ernie a Nerys Coleman, Beryl a Jim Hughes, Iwan Harper, Dr Pam Jones, Olwen Latham, Cassie Tindall, Betty Williams a Dorothy Proudley-Williams. Brysiwch wella.

Roeddem yn falch iawn o glywed bod Moira Muir wedi dychwelyd adref ar ôl cael ei llawdriniaeth yn Ysbyty Broad Green, Lerpwl, a'i bod wedi dechrau mynd allan – peidiwch â mentro gormod, Moira.

**Bingo**
Treuliwyd noson hwyliog o Fingo yn Neuadd Talgai nos Fawrth, 20 Mai. Diolch i Pauline a Raymond am drefnu popeth, a galw'r rhifau hefyd. Diolch i'r merched oedd yn gweini yn y gegin ac, wrth gwrs, i'r rhai a oedd yn bresennol.

Mae'r neuadd yn mynd o nerth i nerth ac yn cael ei defnyddio sawl gwaith bob wythnos. Mae Pauline a Raymond yn gwneud gwaith rhagorol yn edrych ar ei hôl. Diolch iddynt.

**Ffarwelio dros dro**
Ein dymuniadau gorau i Mr a Mrs Dewi Jones a'r hogiau, sydd wedi mynd i Tsieina am dair blynedd. Mae Dewi yn fab i Denzil ac Iona, "Dyma Fo", 16 Pentre Llandygái, ac yn gyn ddisgybl yn Ysgol Tryfan, Bangor. Hwyl fawr i'r teulu i gyd.

**Priodas Aur**
Llongyfarchiadau i Eric ac Iris Harper, Y Deri, Fferm Tŷ Newydd, ar ddathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol ar 30 Mai. Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu a'r ffrindiau oll.

Dymuna Jennifer a John ddiolch o galon i bawb a ddaeth i'r diwrnod agored ar ddydd Sul, 18 Mai. Bydd croeso cynnes i chi ar 13 Gorffennaf hefyd!

**Ymweliad**
Tra'n cerdded o wasanaeth y cymun fore Mercher, 21 Mai, cyfarfu Muriel â dwy wraig a oedd yn chwilio amdani. Roeddent ar eu gwyliau yn Llandudno ac wedi dod i weld Muriel, yr eglwys a'r pentref, yn ogystal â'r ysgol. Mrs Evelyn Daniels oedd un ohonynt, wedi bod yn faciwî yma adeg y rhyfel ac yn byw gyda modryb i Muriel yn Nhalybont. Er yr holl flynyddoedd roedd yn cofio Muriel a'r diweddar Alun yn dda, gydag efallai rhyw frith gof am David. Bydd Evelyn a'i ffrind yn cyfarfod Muriel yn Southport y tro nesaf.

**Pen-blwydd**
Dymunwn ben-blwydd hapus iawn i Cari Jones, 4 Pentre Llandygái gynt, a fydd yn dathlu ei phen-blwydd ddydd Mercher, 9 Gorffennaf. Mwynha dy hunan Cari a llwyddiant mawr i ti yn y dyfodol hefyd.

**Cynllun Gerddi Cenedlaethol**

**Diwrnod Agored**
**Llys y Gwynt**

Ffordd Pentir, Llandygái
Dydd Sul, 13 Gorffennaf
11.00 – 4.00 o'r gloch

**Mynediad yn £3.00**
**Am ddim i blant.**

# Glasinfryn Caerhun

**Marred Glynn Jones**
2 Stryd Fawr, Glasinfryn,
Bangor LL57 4UP
**01248 351067**
Marred567@btinternet.com

**Clwb Cant y Ganolfan Mai**

Dyma enillwyr mis Mai.
£20 - 134 - Ann Williams
£10 - 20 - Peter Banham
£5 - 127 - David Thomas
£5 - 75 - Mrs A M Pritchard

**Llongyfarchiadau!**
Da oedd clywed fod Martin Jones gynt o Fwthyn y Waen, 2, Waen Wen, wedi rhedeg hanner marathon Bermuda ar 26 Mai gan godi cyfanswm o £2000 tuag at ymchwil cancr. Da iawn ti, Martin.

**Sefydliad y Merched**
Noson penderfyniadau a gafwyd nos Fercher 14 Mai ac yr oedd pawb yn gytûn y dylid cefnogi Rhoi Organau (Organ Donation). Bu cryn sgwrsio ynglŷn â'r pwnc ond ni fu'n benderfyniad anodd oherwydd bod y rhan helaeth o'r aelodau â cherdyn yn eu meddiant.

Dr Ann Ilsley oedd yn cadeirio ac wedi croesawu'r aelodau,

darllenodd gerdyn wedi ei dderbyn gan Alun Pritchard sydd newydd ddychwelyd o Kenya. Bu yno am wyth wythnos yn trefnu i adeiladu 10 tŷ ar gyfer teuluoedd tlawd ac i ddiogelu tri phistyll sydd yn rhoi dŵr glân i 1,500 o bobl. Bu hefyd yn cefnogi a rhoi cymorth i blant amddifad yng nghartref Omwabini.

Mae Alun yn ymweld â ni’n gyson a bellach wedi dod yn ffrind i lawer ohonom. Rydym bob amser yn falch o glywed ganddo ac edrychwn ymlaen at ei ymweliad nesa i gael adroddiad llawn.

Mwynhawyd noson gymdeithasol gyda lluniaeth wedi ei ddarparu gan rhai o’r aelodau. Bu ocsiwn yr "Acorn Project " i ddiweddu a gwnaed elw da i’r sefydliad. Diolch i Mrs Elsie O Jones am y raffl ac i’r merched am baratoi’r lluniaeth.

# Pentir

**Anwen Thomas,**
Min yr afon, 11 Rhydygroes, Pentir
☎ **01248 355686**

Llongyfarchiadau mawr i Marteg Dafydd, Carreg Nant ar ennill yr unawd telyn (Blwyddyn 6 ac iau) yn Eisteddfod yr Urdd, Y Bala. Dyma’r trydydd tro’n olynol iddi ennill y gystadleuaeth hon - tipyn o gamp, yn wir! Roedd Menai, Marged a Cedol o’r pentref hefyd ym Mand Jas Ysgol Tryfan, a ddaeth yn drydydd yng nghystadleuaeth y Cerddorfeydd a’r Bandiau. Da iawn, bob un!



Enillodd Cedol Dafydd ras acwathon Dwyfor (blwyddyn 8 a 9) yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddo yntau. Yn y llun fe welwch Cedol gyda’i dlws nofio a Marteg gyda'r tlws a enillodd yn Eisteddfod yr Urdd.

## Eglwys Sant Cedol

**Garddwest**
Cynhaliwyd ein Garddwest flynyddol eleni yn Eglwys St.Cedol, Pentir, brynhawn Sadwrn 24 Mai.

Roedd amryw stondinau, a Helfa Drysor o amgylch Yr Eglwys. Roedd cystadleuaeth arbennig i blant Ysgol Rhiwlas, sef Cwpan Coffa Leslie Crocombe. Enillydd yr Adran Babanod oedd Osian Wyn Rowlands, ac enillydd yr Adran Iau oedd Erin George. Roedd dwy raffl wahanol, sef Raffl Teisen a Raffl Llun (a oedd yn rhoddedig gan Alan Jones, Waun Wen). Yr enillwyr oedd:
Raffl Llun: Jim Frith, Sling
Raffl Teisen: Eira Crocombe.
Ar ddiwedd prynhawn llwyddiannus a fwynhawyd gan lawer diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth. Yn dilyn yr arddwest cynhaliwyd bwffe yn Nhŷ Mawr, Pentir,

**Bingo**
Cynhelir noson o Fingo yn y Ganolfan Glasinfryn, Nos Wener 20 Mehefin am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Sêl Gemwaith**
Cynhelir Sêl ‘Costume Jewellery’ yn Eglwys St Cedol brynhawn Sadwrn 7 Gorffennaf am 2.00pm. Bydd lluniaeth ysgafn. Croeso cynnes i bawb.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Kim a Richard, 9 Caeau Gleision, Rhiwlas ar enedigaeth merch fach, Ela, ar y 29ain o Fai. Llongyfarchiadau hefyd i Nain a Taid sef Alison a Mike, Paula a Philip a hefyd i Mr a Mrs Amos, Bethesda ar ddod yn hen nain a thaid. Yr un yw’r neges i Anti Catherine ac Yncl Alan, y ddau dw i’n siŵr wedi mopio’n lân gyda’r fechan. Llongyfarchiadau i chi i gyd fel teulu.

# Rhiwlas

**John Huw Evans,**
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎**352835**

## Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Caio Llŷr Hughes, 12 oed o Riwlas, sy’n ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Enillodd Caio wobr y chwaraewr gorau mewn cystadleuaeth rygbi 7 bob ochr yn ddiweddar. Enillodd o bêl rygbi wedi ei harwyddo gan dîm 7 bob ochr Cymru! Chwarae i dîm yr ysgol yr oedd Caio pan gafodd o’r wobr. Roedd 15 tîm o ysgolion gwahanol yn rhan o’r gystadleuaeth y diwrnod hwnnw, a daeth tîm Ysgol Dyffryn Ogwen yn ail. Da iawn nhw, a llongyfarchiadau mawr iawn i ti Caio - tipyn o gamp!

**Gwasanaethau’r Sul**
Bydd y gwasanaethau a ganlyn yn cael eu cynnal am 9.45 y bore, mae croeso cynnes i chi ymuno yn y gwasanaethau:


| | |
|---|---|
| 22.6.14 | Boreol Weddi |
| 29.6.14 | Gwasanaeth ar y cyd – Eglwys St. Fair ac Ann, Mynydd Llandegai (10.00 am – yr unig wasanaeth yn y plwyf) |
| 6.7.14 | Cymun Teuluol |
| 13.7.14 | Boreol Weddi |
| 20.7.14 | Cymun Bendigaid |
| 27.7.14 | Boreol Weddi |

**Clwb 100**
**Eglwys Sant Cedol**
**Mis Mai 2014**

| | | |
|---|---|---|
| 1af | 15 | Terry Jones Caernarfon |
| 2ail | 60 | Laura Hosker Deiniolen |
| 3ydd | 62 | Alison Roberts Rhiwlas |

**Ydych chi’n gwybod am rywun a fyddai â diddordeb mewn gwneud ychydig o waith teipio (Cymraeg) bob mis pan fydd Llais Ogwan yn dod allan. Tua 4 awr neu fwy.**

**07902 362213**
**01248 605743**
**post@tasg.co.uk**



# Tregarth

**Gwenda Davies,**
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ **601062**

**Olwen Hills (Anti Olwen),**
4 Bro Syr Ifor,
Tregarth
☎ **600192**

**Llongyfarchiadau**



Llongyfarchiadau calonnog iawn i Buddug Watcyn Roberts, Bryn y Môr, Pen y Ffriddoedd, ar ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni am ysgrifennu ymson. Tipyn o gamp oedd dod i'r brig drwy Gymru gyfan. Da iawn ti, Buddug! (Cewch ddarllen ei gwaith ar dudalen 13)

**Genedigaeth**
Rydym yn llongyfarch Alwyn ac Alison Lloyd Ellis, Dol Wern, Tal y Cae, sydd bellach yn nain a thaid am y tro cyntaf. Ganed Osian James i Sammy ac Iwan Hywel, sydd wedi ymgartrefu yn Llidiart y Gwenyn. Hoffai Alwyn ac Alison ddiolch i'w cymdogion am eu caredigrwydd tuag at Iwan a Sammy yn dilyn yr achlysur hapus ym mis Ebrill.

**Pen-blwydd arbennig**



Ar Fehefin 14 fe fydd Fred Buckley, Maes Ogwen, yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed. Mae ei briod Bessie, ei deulu a'i holl ffrindiau am ddymuno pen-blwydd hapus iawn iddo ar yr achlysur a phob iechyd a mwynhad i'r dyfodol.

Dathlodd dau o hogia ifanc y pentre benblwyddi arbennig iawn yn ystod y mis hefyd. Dathlodd Iolo Wyn Williams, Y Fenallt, Tal y Cae ei ben-blwydd yn 80 ar Fai 18 a Mr Joe Owen, Gerlan, Tal y Cae ei ben-blwydd yn 90 ar Fai 20. Llongyfarchiadau calonnog i chithau eich dau a phob iechyd i'r dyfodol.

**Golffiwr o fri**
Llongyfarchiadau i Hywyn Griffiths, Godre'r Parc, Sling, am ei lwyddiant mawr yn y byd golffio. Ers blynyddoedd bellach mae Hywyn wedi bod yn datblygu ei sgiliau chwarae golff ac yn ddiweddar cafodd ei ddewis yn un o aelodau Tîm Golff Sir Gwynedd. Pob lwc Hywyn. Maes Golff Sant Deiniol, Bangor, yw ei glwb a dyma o bosib y maes golff gyda'r golygfeydd harddaf yn y wlad.

**Dathlu bod yn Hen Nain**
Mae Mrs Beti Morris, Ffordd Tanrhiw, yn dathlu bod yn Hen Nain am yr wythfed gwaith. Ganed Nyfain Mai, sef merch fach i Fflur a Gethin Evans ym Mis Mai. Mae Fflur yn ferch i Rhiannon a hithau'n ferch i Beti. Llongyfarchiadau i chi i gyd fel teulu.

**Adre o Seland Newydd**
Croeso adre i Paul, mab Wynne a'r ddiweddar Megan Roberts, Bryn Difyr, Braich Talog, Tregarth o Seland Newydd. Braf ei weld yn ôl yn ei hen gynefin unwaith eto.

**Profedigaeth**
Ar gychwyn Mis Mai daeth y newyddion trist am farwolaeth Maurice Gillibrand yng nghartref Blaendyffryn, Llandysul, Ceredigion lle bu ef a'i wraig Mary yn cartrefu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roeddynt yn byw yn 7 Tal y Cae, Tregarth, cyn symud i fod yn agosach at eu mab John a'r teulu ger Castell Newydd Emlyn. Cydymdeimlwn gyda'i briod Mary, ei feibion John a Christopher a'i wyrion Peter ac Adam.

**Eisteddfod yr Urdd, Meirionnydd**
Bu nifer o bobl ifanc y pentre yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o gystadlaethau yn Eisteddfod yr Urdd, Meirionnydd ddiwedd Mis Mai. Llongyfarchiadau cynnes i bob un ohonoch a gobeithio i chi fwynhau'r profiad o fod yn rhan o Ŵyl Ieuenctid fwyaf Ewrop a hynny yn Y Bala.

Roedd Buddug Roberts, Pen y Ffriddoedd yn aelod o Ymgom fuddugol Ysgol Dyffryn Ogwen ar gyfer blynyddoedd 7, 8 a 9.

Roedd Elin a Cerwyn, Pant Teg, yn aelodau o Gân Actol Ysgol Llanllechid, sef 'Llyfr Mawr y Plant'. Da iawn chi. Roedd canmoliaeth fawr i'ch gwaith .

Aelodau o Fand Jas Ysgol Tryfan, Bangor, oedd Huw a Tomos Morris Jones, Lliwedd, Tal y Cae. Dyfarnwyd iddynt y drydedd wobr.

Roedd Aziliz Kervegant, Tan Dderwen, yn aelod o Gôr buddugol Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Ardderchog. Bu Siwnamis Efans, Garw, Tregarth hefyd yn cystadlu yng nghyflwyniad dramatig Ysgol Gynradd Llanfairpwll.

Un arall fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod oedd Bryony Keyes, Ty'n Clwt Isaf. Mae Bryony yn astudio Cerddoriaeth yng Ngholeg y Guildhall yn Llundain a'i hofferyn yw'r piano. Roedd Bryony a Gwyn Owen, 9 Tal y Cae, yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn Eisteddfod Sir yr Urdd yn Llundain ym Mis Mawrth a bu'r ddau'n ddigon ffodus i gael cystadlu yn Y Bala yng nghystadleuaeth yr unawd offerynnol. Mae Gwyn yn astudio Cerdd yn yr Academi Gerdd yn Llundain, a'r utgorn yw ei offeryn ef. Daeth Gwyn yn ail ar lwyfan Y Bala ac yn ychwanegol at ddod yn agos i'r brig yn ei gystadleuaeth cafodd ei ddewis gan banel o feirniaid i fod yn un o'r cystadleuwyr yng Nghystadleuaeth Ysgoloriaeth Bryn Terfel fydd yn cael ei chynnal ym mis Hydref. Llongyfarchiadau i Bryony a Gwyn ac fe ddymunwn y gorau i Gwyn yng Nghystadleuaeth Bryn Terfel.

**Profedigaeth**
Ar Fai 30 yng Nghartref Bryn Llifon, Bangor, bu farw Margaret Vaughan Williams yn 75 mlwydd oed. Bu'n byw yn Ffynnon Bach a Maes Ogwen, Tregarth cyn symud i fyw yn Ffordd Glyn, Bangor. Roedd yn briod â'r diweddar Les ac yn fam i Alan, Glenda a Gwilym, Carys a Meirion ac yn Nain annwyl. Cydymdeimlwn gyda'r holl deulu. Mae ei chwaer Lilian yn byw yn 1 Bro Syr Ifor, Tregarth. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ar 6 Mehefin.

## Capel Shiloh

### Gwasanaethau

**Cofiwch am yr Ysgol Sul bob bore Sul am 10.30. Oedfa 5.00 oni nodir yn wahanol**

**Mehefin 15**
Richard Lloyd Jones, Bethel

**Mehefin 22**
Miri Mehefin am 2.00 yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon.
**Arweinydd**
Huw Edward Jones, Ll'pwll
**Cyfeilydd** Helen Wyn Williams, Llanllechid

**Te Parti i bawb yn dilyn y canu! Dewch yn llu!**

**Mehefin 29** Mr Glyn Owen Llanwnda

**Gorffennaf 6** Y Parchedig Gwynfor Williams

**Gorffennaf 13** Y Parchedig Reuben Roberts, Bontnewydd

**Gorffennaf 20** Y Parchedig Philip Barnett

**Gorffennaf 27** Y Parchedig W.R. Williams, Y Felinheli

## Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Shiloh

Trefnwyd y gwasanaeth arbennig gan aelodau'r Ysgol Sul gyda rhai o'r rhieni hefyd yn gwneud eu rhan. Roedd yn hyfryd croesawu Trefnydd Cymorth Cristnogol yng Nghymru i'r gwasanaeth. Merch a fagwyd ym Mangor ydi Cathrin Daniel ac mae yn ei swydd newydd, yn dilyn Jeff Williams ers bron i flwyddyn bellach. Cafodd ei haddysg yn Ysgol y Garnedd, Ysgol Tryfan ac yna aeth i un o golegau Rhydychen. Bu'n gweithio am gyfnod yn Sierra Leone cyn dychwelyd i Gymru i weithio i Cymorth Cristnogol. Buom yn hynod ffodus o gael ei chwmni yn yr oedfa ac i siarad am rai o'r profiadau a gafodd mewn gwahanol wledydd yn gwneud gwaith gwirfoddol. Y Sadwrn cyn y gwasanaeth roedd yn glanio wedi taith i El Salvador. Diolchwyd iddi am ei sgwrs a gwnaed casgliad at Cymorth Cristnogol. Trosglwyddwyd £140 ar gyfer y gwaith. Gobeithiwn gael cwmni Cathrin eto'n fuan yn Shiloh.

**Anrhegu un o aelodau Shiloh**
Bnawn Sul, Mehefin 2, cafwyd gwasanaeth yng ngofal Y Parchedig Philip Barnett ac yn ystod y gwasanaeth cyflwynwyd Tysteb i gydnabod gwaith blaenor ac un o aelodau Shiloh, sef Mr John O. Roberts, Ffordd Pen y Bryn, Bethesda. Mae wedi bod yn pregethu fel pregethwr lleyg yng Ngofalaeth Môn ac Arfon ers 60 mlynedd. Cyflwynwyd y dysteb hardd gan Mr Gwyn Jones, Rhiwlas, sef Goruchwyliwr yr Ofalaeth a chyflwynwyd siec ar ran aelodau'r capel i gydnabod ei waith ar hyd y blynyddoedd. Yn dilyn yr oedfa cafodd yr holl gynulleidfa gyfle i gyfarfod uwchben paned a theisen fendigedig a wnaed ar gyfer yr achlysur. Roedd yn dda cael croesawu ein cyn weinidog, sef Y Parchedig Gwynfor Williams a'i briod i'r gwasanaeth a chyflwynwyd siec iddo yntau i gydnabod ei waith fel Gweinidog Shiloh am y deuddeg mlynedd diwethaf.

**Llongyfarchiadau**
Mae Mr Dennis Griffiths, Abercaseg, Bethesda, gynt o Odre'r Parc, Sling, yn un o aelodau mwyaf ffyddlon i'r gwasanaethau yn Shiloh. Roedd pawb o'r gynulleidfa wrth eu bodd o glywed fod un o'i ferched, Mrs Falyri Jenkins, Talybont, Aberystwyth, a fagwyd yn Sling, yn cael ei hurddo am ei gwaith ym myd addysg a cherddoriaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr, yn Llanelli ym Mis Awst. Llongyfarchiadau i Falyri.

**Profedigaeth**
Collodd un o aelodau Shiloh berthynas agos ar gychwyn Mis Mehefin. Daeth y brofedigaeth i ran Mrs Lilian Brockelbank a gollodd ei chwaer, sef y diweddar Mrs Margaret Vaughan Williams, yng Nghartref Bryn Llifon, Bangor. Cydymdeimlwn gyda Lilian a'r teulu yn eu galar.

Llais Ogwan 11

## Merched y Wawr Cangen Tregarth

Nos Lun, Mai 12, cafwyd noson o arddio yng nghwmni Brenin y Llysiau a'r Blodau, sef Medwyn Williams, Llanfairpwll. Drwy gyfrwng lluniau ardderchog yn arddangos ei waith ym myd garddwriaeth daethom i werthfawrogi'r holl waith a wnaed ganddo ef a'i briod Gwenda ar hyd y blynyddoedd.

Mae wedi ennill y prif wobrau ar fwy nag un achlysur yng Ngŵyl Arddio Chelsea ac nid oes neb sydd wedi efelychu ei gamp. Mae ei fab ac un o'i wyrion yn prysur wneud enwau iddynt eu hunain ac yn dod, o dan ddylanwad Medwyn, yn dyfwyr llysiau o fri. Yn ystod y noson cyfeiriodd ar fwy nag un achlysur at ddylanwad ei dad ac fel y cafodd y diddordeb ganddo ef drwy gydol ei ieuenctid ac yn ddiweddarach yn ei yrfa. Roedd ei dad yn un o sylfaenwyr Gŵyl Flodau a Llysiau Porthaethwy gyda'r diweddar John Lasarus Williams. Diolchwyd i Medwyn am noson werth chweil gan Anwen Griffiths.

Nos Lun, Mehefin 2 trefnwyd gwibdaith y gangen i weithdy'r gof Ann Catrin yng Nglynllifon. Cawsom groeso cynnes gan Ann, a oedd mor falch o groesawu cymaint o ffrindiau o Ddyffryn Ogwen a hithau'n dod yn wreiddiol o Fryn Cul, Tregarth. Drwy gyfrwng lluniau gwych ar y sgrin gwelwyd y gwaith a wnaeth ar gychwyn ei gyrfa.

Roedd llawer o'r campweithiau rheini yn fawr a symbolaidd ac wedi eu lleoli mewn llawer rhan o'r byd. Gwelsom y dolenni drysau a wnaeth ar gyfer Canolfan y Mileniwm ym Mae Caerdydd a sylweddolwyd gymaint oedd y gwaith o ran maint a thrymder. Yna aeth ymlaen i sôn am y math o waith mae'n ei wneud yn awr. Yn dilyn y ddamwain car erchyll a ddioddefodd rai blynyddoedd yn ôl fe'i gorfodwyd i newid cyfeiriad gan fynd ati i ddefnyddio defnyddiau mwy addas a phwrpasol. Mae'n parhau i wneud gwaith tlysau ac addurniadau ar gyfer eu harddangos ar waliau ac mae'r gwaith newydd yn cael cryn amlygrwydd am y crefftwaith ddaw o'i dwylo. Mae Ann a dau artist arall bellach wedi agor Siop Iard yng Nghaernarfon ac mae'n falch iawn o groesawu pobl yr ardal i weld a phrynu ei nwyddau. Diolchwyd i Ann am wledd o groeso gan Lynda Pritchard ac i Anwen am wneud yr holl drefniadau ar gyfer y wibdaith.

Yna aeth y bws ymlaen i Gaernarfon a mwynhaodd pawb bryd o fwyd yng Nghaffi'r Doc yn Galeri. Noson wych arall i ddiweddu tymor llwyddiannus. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith yn ystod y flwyddyn, sef Gwenda yn Llywydd, Anwen yn Ysgrifennydd ac Olwen yn Drysorydd. Y Swydd-ogion am y flwyddyn nesa fydd: Allison yn Llywydd, Myfanwy yn Ysgrifennydd ac Enid yn Drysorydd.

## Eglwys y Santes Fair

**Gwasanaethau**

**Mehefin 22** Cymun Bendigaid
**Mehefin 29** Cymun Bendigaid - un gwasanaeth yn y Plwyf am 10.30
**Gorffennaf 6** Boreol Weddi
**Gorffennaf 13** Cymun Bendigaid
**Gorffennaf 20** Boreol Weddi

Pob gwasanaeth am 9.45 ar wahân i 29 Mehefin

**Clwb Cant Mis Mai**

£15 109 B. Buckley
£10 54 Rosemary Williams
£5 39 Beryl Brown

Unwaith eto ar Fai 27 cafwyd prynhawn difyr yn y Te Bach. Braf oedd gweld pawb yn mwynhau a rhoi'r byd yn ei le!

Mae Garddwest y tair Eglwys yn cael ei chynnal ddydd Sadwrn, Mehefin 28 yn Ficerdy Pentir am 1 o'r gloch. Dewch i gefnogi. Bydd raffl, stondinau, cystadlaethau a lluniaeth.

## Mynydd Llandygái

**Theta Owen**
Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygai.
☎ **600744**

**Gwellhad**
Anfonwn ein dymuniadau gorau at Anwen Morris sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Abergele, gan ddymuno adferiad buan iddi. Yn meddwl amdanoch!

**Clwb y Mynydd**
Cafwyd prynhawn difyr yng nghwmni ein gwraig wadd, Jackie Switzer, a fu'n sôn am ei gwyliau yn Awstralia. Dangosodd gasgliad gwych o luniau hardd o'r wlad a mawr yw ein diolch i chi, Jackie. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr.

Bydd trip y mis nesaf yn cychwyn am naw.

**Sioe Wledig**
Cynhelir y Sioe ddydd Sul, 6 Gorffennaf yn y neuadd - rhwng 8.30 a 10.00 y bore i dderbyn eich cynnyrch, beirniadu am 10.00, a'r sioe o hanner dydd ymlaen. Croeso mawr i chi. Agored i bawb - am fwy o fanylion cysylltwch â Barbara Roberts (01248) 601099 neu Anne Aspinall - 605437. Mae ffurflen gystadlu ar gael am dâl o 50 ceiniog oddi wrth Mrs Barbara Roberts, i'w dychwelyd erbyn 20 Mehefin.

**Brysiwch Wella**
Cofion at bawb yn yr ardal sydd ddim yn dda. Anfonwn ein cofion gorau atoch gan ddymuno adferiad buan.

## TREGARTH FY MHLENTYNDOD
### (Y Rhan Olaf)

Codwyd ystâd Maes Ogwen ar y caeau rhwng Ysgol Tregarth a chapel Pengroes a gyferbyn â'r ystâd honno mae Penrhyn View Terrace lle'r oedd organydd eglwys y Gelli yn y 1950au yn byw. Adnabyddir y teras hwnnw'n lleol fel Tai Pwrws ac nid nepell oddi wrth ystlys ddwyreiniol y teras mae Tŷ Mawr lle'r oedd y diweddar Tomi Tŷ Popty a'i wraig yn cadw siop fechan mewn eil deulawr oedd ynghlwm wrth eu cartref. Roedd eu siop ar lawr isaf yr eil ac roedd meidr gul yn arwain ati o'r B4409. Roedd ei hadwy gyferbyn â giât fochyn oedd yn arwain at ystâd Maes Ogwen. Cofiaf orfod defnyddio cwponau o lyfr dogni i brynu melysion o'u siop pan oeddwn yn hogyn bach.

Roedd ffwrn go fawr ar lawr isaf eil Tŷ Mawr y tu ôl i siop Tomi Tŷ Popty a'i wraig, lle deuai pobl top Tregarth â'u bara i'w crasu ar un adeg yn y dyddiau cyn bod sôn am fedru pwrcasu bara o siopau.

Yn fras iawn, mae'r ffordd o amgylch holl bentref Tregarth ar ffurf triongl isoseles gyda'i waelod ar Ffordd Tanrhiw a'r B4409 ac Allt Cerrig Llwydion yn ochrau iddo a'i big ym Mhengroes. Yno, ym mhig y triongl y safai capel Pengroes tan oddeutu 1993 pan chwalwyd yr adeilad. Ychydig yn ddiweddarach fe chwalwyd ei festri hefyd ac wedi hynny fe adeiladwyd dau neu dri tŷ annedd ar y safle. Nid yw Allt Cerrig Llwydion a phen dwyreiniol Ffordd Tanrhiw yn weladwy o ben Craig Dob.

Yn nyddiau fy maboed fe ddeuai dwy ffordd haearn drwy bentref Tregarth. Nabodem ni, drigolion y pentref, y naill fel y Lein Fawr a'r llall fel y Lein Fach ac o ben Craig Dob gallech glywed trên yn ffrwt-ffrwtian yn ffyrnig o dro i dro ar gledrau'r Lein Fawr o Fangor i Fethesda i fyny'r allt rhwng Felin Hen a Thregarth. Cyn bo hir gallech weld mwg o gorn simdde'r march tân mawr du yn codi o'r hafn ddofn unionsyth rhwng Ty'n Lôn a gorsaf Tregarth ac yn taro'r gwagle dan Bont Twll Coch i ddechrau a Phont Stesion wedyn cyn cyrraedd yr orsaf. Yno, oedai'r trên am ennyd cyn cychwyn wedyn i ddifa'r pellter rhwng Tregarth a Bethesda a hynny mewn boddfa o sŵn byddarol.

Fe agorwyd y Lein Fawr i deithwyr oddeutu Gorffennaf 1884 ac fe'i caewyd iddynt ar y 3ydd o Ionawr 1952 ond bu cario glo arni i Dregarth a Bethesda am gyfnod byr wedi hynny. Oddeutu ugain mlynedd yn ddiweddarach fe gafodd yr hafn hir rhwng Ty'n Lôn a Thregarth ei llenwi mor llwyr nes i'w holion ddiflannu'n gyfan gwbl dan lystyfiant trwchus. Maes o law fe drowyd hen orsaf Tregarth yn gyrchfan i henoed y pentref.

Gallech glywed clec-clec-clec rhythmig y trên bach yn teithio ar hyd y Lein Fach gul rhwng y Cei ym Mangor a Chwarel Cae ym Methesda o ben Craig Dob hefyd. Byddai wagenni bychain y trên a fyddai wedi'u cydio'n ei gilydd elin wrth elin yn un rhuban hir yn llawn dop o lechi toi os byddai'r trên yn teithio i gyfeiriad y Cei ym Mangor ond byddai pob un ohonynt yn wag pan fyddai'r trên yn teithio i'r cyfeiriad arall.

Hoffwn wylio'r trên bach drwy'r bylchau yn y ganllaw ddellt o ddur oedd wedi'i gosod ar wal isel ar un ochr i Bont Penrala os y byddwn arni pan fyddai'r trên ar ei hynt ar y cledrau'n agos i'r bont. Roedd llinell osgoi ar y lein rhwng Pont Penrala a Thy'n Lôn lle gallai dau drên basio'i gilydd yno. Fe gaewyd y Lein Fach yn 1962.

Gadewais y pentref yn 1980 a bellach rwyf yn byw yn nhref farchnad Llanrwst gyda Sarah, fy ngwraig a Catrin, fy merch. Dim ond unwaith yn y pedwar amser yr wyf wedi ymweld â Thregarth ers i mi symud oddi yno i fyw. Mae llawer tro ar fyd wedi digwydd yn hanes y pentref ers pan oeddwn i'n blentyn bach yn byw ym Mraichtalog yn y 1950au cynnar.

**Dafydd Llewelun (gynt o Dregarth**

# Côr Meibion y Penrhyn

**Cyngerdd Coffa**
Yn ystod mis Mai bu'r côr yn canu yn Eglwys Llanfairfechan mewn cyngerdd coffa i'r diweddar Richard Lewis (Dic Aber) oedd yn aelod o'r tenoriaid cyntaf. Codwyd symiau sylweddol o arian i Hosbis Dewi Sant Llandudno er cof amdano yn ogystal ag i'r eglwys. Daeth cynulleidfa deilwng iawn i'r cyngerdd a pherfformiwyd unawdau ar y piano a'r trombôn gan ddau o ddisgyblion Ysgol Tryfan, Bangor. Roedd pawb yn gwerthfawrogi perfformiad y bobl ifanc a chyfraniad y côr yn fawr.

Yna, cafwyd un arall o gyngherddau'r haf yn eglwys Sant Ioan, Llandudno o flaen cynulleidfa fawr. Mae'r fan honno wedi datblygu i fod yn un o gadarnleoedd cyngherddau corawl Gogledd Cymru yn y blynyddoedd diwethaf ac mae Côr y Penrhyn yn un o'r corau mae'r gynulleidfa o ymwelwyr bob amser yn edrych ymlaen at ei chlywed, gan fod nifer o bobl yn dychwelyd i wrando arnom dro ar ôl tro.

Gyda dyfodiad tymor yr haf mae'r côr yn parhau i fod yn brysur gyda chyngherddau. Ar 2 Mehefin bu'r côr yng Nghapel Jerusalem, Bethesda i ddathlu lansio cynhyrchiad y Theatr Genedlaethol o Chwalfa T. Rowland Hughes. Bu hon yn noson arbennig iawn gyda chyfraniadau gan blant ieuengaf Ysgol Llanllechid a'r plant hŷn yn perfformio'r gân actol y buont yn ei pherfformio yn Eisteddfod yr Urdd. Cafwyd eitemau hefyd gan Lisa Jên, Gwyn Owen a Siôn Rich. Ar 14 Mehefin, bu'r côr yn cynnal Noson Hwyl yr Haf yn Neuadd Llanfairfechan cyn dychwelyd i Henllys ar 20 Mehefin ac i ddiweddu'r mis ar 28 Mehefin byddwn yn canu mewn priodas yn Llanberis.

**Barbeciw**
Bydd Mis Gorffennaf yn gyfnod yr un mor brysur i'r côr gyda nifer o gyhoeddiadau ar hyd a lled Gogledd Cymru yn ogystal â barbeciw a noson o hwyl yng Nghlwb Criced Bethesda nos Sadwrn 12 Gorffennaf. Mae croeso i unrhyw aelod o'r cyhoedd ddod i'r barbeciw am dâl bychan a bydd y noson o hwyl fydd yn dilyn, gydag amryw o eitemau yn cael eu cyflwyno gan aelodau'r côr, yn rhad ac am ddim.

**Rhaghysbysiad: Band Y Black Dyke.**
Y flwyddyn nesaf mae cyngherddau mawr ar y gweill gyda bwriad o ganu gyda'r band byd-enwog o Bradford, Swydd Efrog , sef y Black Dyke Band, yn Y Feniw yn Llandudno. Disgwylir y bydd mynd mawr ar y tocynnau, felly gwyliwch am hysbysebion yn y wasg pan ddaw'r amser.

**Côr Meibion Llanelli**
Byddwn hefyd yn cynnal cyngerdd yn Theatr Bryn Terfel gyda Chôr Meibion Llanelli – y dyddiad i'w gadarnhau.

## Cymeriadau'r Côr



Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn.

Yr aelod y mis hwn yw Wil Parry o Fangor sy'n bennaeth ysgol gynradd wedi ymddeol ac yn aelod blaenllaw o UCAC, sef undeb i athrawon Cymru.

**Be' ydy dy enw llawn?** - William David Parry.

**Oed? (ta' ydy hynny'n breifat?)** - 64
**Lle wyt ti'n byw?** - Bangor.
**Un o lle wyt ti'n wreiddiol?** O Pesda – gwaelod stryd.
**Pa dri o'r rhain fasai'n dy ddisgrifio orau?**
**Hapus / Bywiog / Anturus / Medrus / Mwynhau Bywyd / Tawel / Hoffi cwmni / Hael / Gofalus efo arian / Eisiau bod yn unawdydd / Un sy'n canu yn y bath?**
Hapus / Mwynhau bywyd / Un sy'n canu yn y bath
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r Côr?** Oddeutu 25 mlynedd
**Pa lais wyt ti?** Tenor 1
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Hoffi canu a chwmpeini
**Oes gen ti hoff gân neu ganeuon yn rhaglen y côr?** Benedictus, Tsotoloza a Dagrau
**Pwy ydy dy hoff ganwr / gantores?**
Charlie Pride
**Be' ydy dy farn di am ganu pop?** - Gwych, yn hoffi rhai trefniannau i gorau meibion
**Oes gen ti atgof difyr am ryw ymweliad efo'r Côr?**
Oes, ond maent i gyd yn gyfrinach.
**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r Côr?** Hamddena gyda'r wyrion a'r wyres.
**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y Côr yn ei wneud?**
(i) gwneud ymgyrch ddwys i gael mwy o denoriaid cyntaf ifanc.
(ii) Parhau i gynnal cyngherddau amrywiol i godi proffil y côr
(iii) Recordio CD arall.

# Marchnad Ogwen

Eich Stondin chi - sef y Stondin Elusen - sy'n cael sylw'r mis yma, a newyddion rhagorol sydd gennym fel Marchnad i'w rannu gyda darllenwyr Llais Ogwan. Rydych wedi llwyddo i gasglu dros £1000 i wahanol elusennau yn yr ardal! Ardderchog yn wir. Mae pawb sydd yn ymwneud â Marchnad Ogwen mor falch ein bod wedi gallu bod o gymorth i'n cymuned. Y newyddion da ydi ein bod am barhau gyda'r Stondin Elusen gan fod cymaint o fanteision i'r gwahanol achosion da ac i ninnau fel Marchnad. Rydym wedi gwneud nifer o ffrindiau newydd ac wrth gwrs mae'r elusennau wedi elwa. Mae Stondin mis Gorffennaf ar gael gan fod un elusen wedi gorfod ail feddwl. Mis Ionawr yw'r nesaf ar gael wedyn. Cysylltwch â'r Ysgrifennydd i gael ffurflen gais a gwybodaeth.

## Newyddion y Farchnad

Bydd y Farchnad yn y Clwb Rygbi am y tro olaf fis Gorffennaf. Mae Pwyllgor Marchnad Ogwen yn ddiolchgar iawn i Bwyllgor y Clwb Rygbi am bob cydweithrediad dros y misoedd diwethaf. Diolch yn arbennig i Now Jones am agor a chau'r Clwb i ni ar ddiwrnod marchnad.

Bydd cyfnod newydd a chyffrous yn hanes y Farchnad yn dechrau ym mis Awst gyda newid lleoliad ac amser. Byddwn yn Neuadd Ogwen ar yr ail Sadwrn yn fisol o 9.30 - 1.30. Bydd y Stondinau arferol a'r Caffi yn bodoli fel arfer, ond gyda mwy o le, gobeithir ehangu'r Farchnad gyda Stondinau newydd. Cofiwch fod rhaid gwneud cais i'r Pwyllgor a chofrestru cyn y caniateir i chwi ymuno â'r Farchnad. (Gellir gwneud hyn trwy gysylltu â'r Ysgrifennydd). Ar hyn o bryd, mae angen pedwar Stondin - Siocled, Melysion (wedi eu gwneud gartref), Caws (ond NID caws gafr) a Chig.

## Plannu dyfodol mwy gwyrdd ym Methesda



Efallai eich bod wedi sylwi bod meysydd parcio Rhes Tabernacl yn edrych yn fwy taclus yn ddiweddar. Tîm Trefi Taclus Cyngor Gwynedd sydd wedi bod wrthi'n rhoi diwyg newydd gwyrdd i'r ardal drwy gael gwared â nifer o goed marw a phlannu rhai eraill addas yn eu lle.

Mae amrywiaeth o goed wedi cael eu plannu gan gynnwys coed cyll, pinwydd yr Alban a choed criafol.

Dyma lun o'r Cynghorydd Ann Williams gyda Gwen Alun o Gyngor Gwynedd.

Os hoffech ragor o fanylion am gynllun Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, ffoniwch y tîm ar 01766 771000 neu e-bostiwch trefitaclus@gwynedd.gov.uk

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

**© Dr J. Elwyn Hughes**



## Dyddiadur Digwyddiadau 1884-1889

## 1884

• 01/07/1884: Y trên cyntaf yn dod ar y rheilffordd newydd o Fangor i Fethesda.
• 12/05/1884: W. J. Parry a'i deulu'n symud i fyw i Coetmor Hall. Adroddodd yr hanes: 'Yn Ebrill 1883, cymerais dir yn agos i hen Balas Coetmor ar brydles gan Arglwydd Penrhyn, i adeiladu tŷ arno, er mwyn bod yn fwy cyfleus i'm masnach, a hefyd yn ôl cyfarwyddyd fy meddyg, yr hwn a'm rhybuddiai fod yn berygl i mi aros yn hwy ym Maes-y-groes, wedi bod ar lawr dan glefyd crydcymalau yno. Dechreuais dorri sylfeini yn Ebrill 1883, a symudasom yno i fyw ar y 12fed o Fai, 1884 … Er Mai 1884, yr wyf wedi trigiannu yn Llys Coetmor, yr hwn a saif lai na milltir o Orsaf Bethesda, ar godiad tir mewn man hyfryd ac iach, ac yng ngolwg Carneddau Llewelyn a Dafydd, Yr Elidir, Y Fronllwyd, Moel Faban, Yr Elen, Moelyci, Nant Ffrancon, Chwarel y Penrhyn, a Môn, mam Cymru'.
• 08/07/1884: Agor Rheilffordd Bethesda a Bangor.
• 'R.O. yn gwneud ei orau i Seisnigeiddio trigolion Bethesda. Y mae eisoes wedi gwerthu 160 o rifynnau Nadolig y Graphic a'r Illustrated News. Pa ryfedd ei fod yn selog dros i Fethodistiaid gychwyn Achos Saesneg yn yr ardal'. R.O. oedd R. O. Williams, awdur Hanes Dechreuad a Chynydd y Methodistiaid Calfinaidd yn Mhlwyfydd Llanllechyd a Llandegai (tua 1882). Yr oedd yn flaenor yng Nghapel y Gerlan ac yn byw yn Nhan-Treflys. Bu farw'n 74 oed yn 1919.
• Dechrau sôn am godi Capel Bethania (A).

## 1885

• Codi Rhes Gordon, Bethesda.
• 04/05/1885: George Sholto Douglas Pennant yn dileu Cytundeb Pennant Lloyd.
• 10/05/1885: Marw Edward Stephen (Tanymarian) yn 62 oed. Claddwyd ef ym Mynwent Capel Bethlehem. Sonnid amdano fel y 'Jolly Christian'.

## 1886

• 31/03/1886: Edward Gordon Douglas Pennant yn marw yng Nghastell y Penrhyn. George Sholto Douglas Pennant, ei fab, yn ei olynu.
• Nos Lun y Pasg: Agor Capel Bethania (A).

## 1887

• Ddydd Gŵyl Ddewi, 1887: Plant Ysgol y Cefnfaes yn cynnal 'Cyngerdd Cenedlaethol (Blynyddol)' yng Nghapel Bethesda. Y Llywydd oedd W. J. Parry a'r arweinydd oedd Iwan Jenkyn. Ceiniog a dwy geiniog oedd y tâl mynediad a'r elw i fynd tuag at gael 'gwobrwyon i'r ysgolheigion'.
• R. S. Hughes yn symud i Fethesda, pan benodwyd ef yn Organydd Capel Bethesda, ar gyflog o £35 y flwyddyn. Bu farw 05/03/1893.

## Tua 1888

• Sefydlu cwmni 'The North Wales Cockle Preservation Co.', gyda Thomas Hughes, Drygist, Bethesda, yn Rheolwr Gyfarwyddwr arno, mewn dau dŷ gwag ar allt y Stryd Fawr yng Nghaellwyngrydd, Rachub.

## 1889

• Ddydd Gŵyl Ddewi, 1889: Plant Ysgol y Cefnfaes yn cynnal eu trydydd Cyngerdd Cenedlaethol Blynyddol a'r wasg Gymreig yn bwrw canmoliaeth hael eithriadol ar ymdrechion Iwan Jenkyn ac yn pwysleisio ar weddill athrawon Cymru i ddilyn esiampl Ysgol y Cefnfaes.
• Cau Chwarel Bryn Hafod y Wern.
• 04/04/1889: Swper Cymdeithas Lenyddol Treflys (19 o aelodau) yn nhŷ John Williams, 1 Rhes Ogwen, a chyfarfod adloniadol wedyn.
• 13/11/1889: Cyfarfod yn Ysgol Glanogwen i drafod sefydlu ysgol sirol ym Methesda. Cael addewid wedi hynny o dir a rhodd o £200 gan yr Arglwydd Penrhyn.

**I'w barhau**

# Ymson mewn argyfwng

*Dyma ran o Ymson buddugol Buddug Watcyn Roberts, Pen y Ffriddoedd, Tregarth, a enillodd iddi'r wobr gyntaf yng nghystadleuaeth Rhyddiaith Blwyddyn 9 Eisteddfod yr Urdd. Yng ngeiriau'r beirniad, Manon Steffan Ros, "Nid yn unig mae hi'n hawdd i'w darllen, ac yn glyfar, ond mae'r syniad yn un gwych." Mae'r ymson i'w gweld yn llawn yng Nghyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod yr Urdd, Meirionnydd.*

**Ymson mewn argyfwng**

Be dw i am wneud?! HEDDIW mae'r diwrnod cau! Dwi wedi cael y dasg ers wythnosau! Ond mae bywyd mor brysur dydi? Yn enwedig i hogan ifanc boblogaidd fel fi! Dw i di bod yn brysur yn gwneud fy ngwaith ysgol diddiwedd, yn mynd i ymarferion chwaraeon bob awr o'r dydd, trio ymarfer ar gyfer yr arholiad piano sydd gen i ddiwedd y mis, heb sôn am drio ffeindio amser i gymdeithasu efo ffrindiau. A rŵan mae'r unfed awr ar ddeg wedi dod a does gen i ddim syniad sut i DDECHRAU sgwennu rhywbeth sy'n ddigon da i'w anfon i Steddfod yr Urdd! Be wna i?!!!!

O do, dw i wedi hel lot o syniadau. Lot fawr. Yn union fel llwyth o blant eraill. Pethau fel……………..ymson ar ganol achos boddi Tryweryn, neu ymson person yn drysu eisiau mynd i'r toiled. Ymson mewn argyfwng daearyddol fel tswnami, daeargryn neu, i fod yn amserol, ymson mewn llifogydd. Pa un alla i ddewis?! Un o'r rhain, neu ddyliwn i drio bod yn wahanol? Mae beirniaid wastad yn licio gwaith sy'n "wahanol" dydi? Yndi? Dibynnu ar oed y beirniad dydi? Ydyn nhw'n cŵl ac yn ifanc, neu'n dipyn o hen grocs? Mae'n well i mi edrych yn y rhestr testunau….O wel, dydw i ddim wedi clywed am yr un ohonyn nhw o'r blaen. Doedd hynny fawr o help nac oedd?...

Be ydi pwynt cystadlu beth bynnag? Mab i ryw fardd o Sir Fôn, neu rywun sy'n perthyn i'r beirniad neith ennill siawns! Yr unig reswm dwi'n cystadlu ydi i gadw Mam a Nain yn hapus! Mi fasan nhw mor falch tasan nhw'n gallu cerdded rownd maes y steddfod yn eu linen newydd yn dweud fod eu merch neu wyres yn enillydd cenedlaethol. Ond fydda i ddim na fydda? Mi fydd na ryw athrylith o'r de wedi meddwl am rywbeth hollol ffantastig fel pwnc, rhywbeth fel yr Holocaust, dyfodol yr Iaith Gymraeg, cynhesu byd-eang neu dlodi yn y Trydydd Byd. A fi? Mae fy mhapur cynllunio i yn wag, ar wahân i ambell lun o flodyn llipa a naw calon. O ia, ac enw fy nghariad diweddara…

# Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd ein cyfarfod mis Mai ar y 27ain gyda Rheinallt Puw yn y gadair. Roedd yn gyfarfod byr gan fod pawb wedi bod yn gweithio'n galed yn ystod yr wythnosau cynt yn ymgyrchu ar gyfer Etholiad Ewrop. Roedd yr ymgyrchu wedi dwyn ffrwyth ac ail etholwyd Jill Evans i'n cynrychioli yn Ewrop. Yr ydym ninnau hefyd fel cangen yn ei llongyfarch yn fawr ac yn gwybod y bydd yn gweithio'n galed dros fuddiannau Cymru.

Mae Ceinwen yn anfon at bawb i ddiolch am eu gwaith a'u cymorth gydag Etholiad Ewrop.
Mae'n mynd i fod yn waith ymgyrchu rŵan am y ddwy flynedd nesaf i gefnogi Hywel Williams ar gyfer sedd yn Llundain yn 2015, a Siân Gwenllïan ar gyfer sedd yng Nghaerdydd yn 2016.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Etholaeth Arfon yng Nghlwb Canol Dre Caernarfon, ar Orffennaf 3ydd. Elfyn Llwyd, A.S., fydd y siaradwr gwadd ac mae croeso i holl aelodau Plaid Cymru.

Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o drefnu nosweithiau cymdeithasol ar gyfer diwedd yr haf a'r hydref, ac fe wnaed trefniadau ar gyfer ein stondin arferol yn Sioe Dyffryn Ogwen.

# Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ddechrau mis Mai aeth nifer o'r aelodau i gyfarfod o Blaid Lafur Arfon i drafod mwy o ddogfennau polisi ar gyfer etholiad Prydain y flwyddyn nesaf, e.e. y cyflog byw, contractau heb oriau, y dreth llofftydd.

Ganol y mis aeth cefnogwyr i noson gwis yr etholaeth, a'r gorau oedd Gwynfor Edwards, cynghorydd sirol Ward Deiniol, Bangor.

Yna, ddiwedd y mis, cynhaliwyd cyfarfod misol y gangen i dderbyn adroddiad ar Lywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd a'r cynghorau cymunedol ac yn y blaen.

Yn ogystal â hyn, gweithiodd aelodau'r gangen ar gyfer etholiad Ewrop mewn sawl ffordd. Da oedd clywed fod Derek Vaughan yn gyntaf unwaith eto – teyrnged i'w waith diflino.

Cynhelir cyfarfod blynyddol y gangen ar y bedwaredd nos Fercher o fis Mehefin (y 25ain) am 7.30 yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda (ond cyn hynny byddwn wedi bod yn y Sioe Amaethyddol ar y 14eg).

# O'r Cyngor

### CYNGOR CYMUNED BETHESDA

"Gwerth cymuned yw'n credo
A'n braint yw gwarchod ein bro"

**Swyddogion Newydd**
Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Cyngor ar 21 Mai yng Ngorffwysfan, Bethesda. Etholwyd y Cyng. Godfrey Northam yn gadeirydd am y flwyddyn i ddod, a'r Cyng. Paul Rowlinson yn is-gadeirydd.

**Holiadur Tai Lleol**
Cafwyd apêl gan y Cynghorydd John Wyn Williams, arweinydd portffolio Cynllunio Cyngor Gwynedd, ar i Gynghorau Cymuned ar draws y sir ddarparu tystiolaeth ynglŷn ag anghenion tai yn yr ardal. Mae angen y wybodaeth gan fod Cyngor Gwynedd wrthi'n gweithio ar Gynllun Datblygu Lleol newydd, fydd yn penderfynu faint o dai fydd yn cael eu codi yn yr ardal dros y 15 mlynedd nesaf. Bydd y Cyngor Cymuned yn dosbarthu holiadur i rai o dai y Dyffryn dros y mis nesaf, i'w ddychwelyd i Gorffwysfan erbyn 20 Mehefin.

**Gerlan**
Penderfynwyd clustnodi swm o arian ar gyfer datblygu cynllun maes parcio newydd yn Gerlan. Bydd y cyllid yn cyflogi arbenigwr i ddatblygu achos busnes ac i awgrymu pwy fyddai'n gyfrifol am adeiladu, perchnogi a rheoli'r maes parcio. Unwaith y bydd y gwaith paratoi wedi ei wneud, bydd yn rhaid chwilio am arian sylweddol i wireddu'r cynllun.

**Rachub**
Cafwyd adroddiad o gyfarfod diweddar rhwng rhai o aelodau'r Cyngor Cymuned a Phwyllgor Rheoli Canolfan Rachub. Mae'r trafodaethau'n parhau ynglŷn â dyfodol y ganolfan, ac mae gobaith y bydd yn ail agor yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn yn dilyn gwariant sylweddol ar drwsio'r llawr.

**Balchder Bro**
Adroddwyd y byddai deugain o fasgedi crog yn cyrraedd Llys Dafydd ar 28 Mai, ac y byddai rhai o wirfoddolwyr Balchder Bro Ogwen yn eu gosod ar amryw o siopau'r Stryd Fawr.

**Cais Cymllunio**
Nid oedd gwrthwynebiad i gais cynllunio i ddymchwel estyniad presennol a chodi estyniad deulawr yn 7 Ffordd Pant.

### CYNGOR CYMUNED LLANDYGÁI

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol yng Nghanolfan Tregarth gyda'r Cynghorydd Dafydd Owen yn y gadair.

Etholwyd y Cynghorydd Mrs Mair Leverett yn gadeirydd am y flwyddyn 2014/2015 a'r Cynghorydd Huw P. Jones yn is-gadeirydd.

Talwyd teyrnged i'r Cynghorydd Dafydd Owen am ei ddycnwch a'i ymroddiad ac am flwyddyn lwyddiannus iawn yn y swydd. Diolchodd i'r holl aelodau am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol y flwyddyn a dymunodd yn dda i'w olynwyr.

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Rhys M. Llwyd a Mrs Angharad Williams ar Bwyllgor Canolfan Tregarth, y Cynghorwyr Ms S. A. Breward MBE a'r Cynghorydd Mrs M. Leverett ar Bwyllgor Neuadd Talgai a hefyd ar y Cydbwyllgor Gwarchod Cymunedol.

Bydd Llywodraethwyr yr ysgolion yn parhau yr un fath, sef Ysgol Bodfeurig: Y Cynghorydd Ms Lynn Ashton, Ysgol Tregarth: Y Cynghorydd Dafydd Owen, Ysgol Llandygái: Y Cynghorydd Mair Leverett.

Cynrychiolir y Cyngor ar Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd. Bydd y Cynghorydd Dafydd Owen yn parhau ar Dîm Prosiect Bangor a'r Cynghorydd Gwen Griffith ar Gyfarfodydd yr Heddlu. Bydd y Cynghorydd Mrs E. Frodsham ar Bwyllgor Cyswllt Chwarel y Penrhyn.

Trefnir cyfarfod arbennig i drafod materion ynglŷn â Phartneriaeth Ogwen Cyf.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth y Cyngor Sir yn cadarnhau ei fod wedi gwneud gwelliannau i gwlfert ym Mynydd Llandygái. Bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n rheolaidd ac y mae'n awr ar y rhestr archwilio misol.

Cysylltwyd â'r Cyngor Sir oherwydd tyllau peryglus ym maes parcio Canolfan Tregarth a byddant yn cael sylw ar fyrder.

### CYNGOR CYMUNED PENTIR

Yn y cyfarfod blynyddol ar 8 Mai etholwyd y cynghorydd Lowri James yn Gadeirydd am 2014/15 a'r cynghorydd Bernard Jones yn Is-gadeirydd.

Diolchodd y Cynghorydd Dewi Jones i'r cyngor am eu cefnogaeth yn ystod ei ddwy flynedd fel Cadeirydd. Hefyd, etholwyd y cynghorwyr Lowri James; Bernard Jones; Dafydd Jones-Morris a Jean Pierce yn aelodau o'r Is-bwyllgor Cyllid. Penderfynwyd ethol y cynghorydd Dewi Jones fel pumed aelod.

Derbyniwyd Mantolen am 2013/14 yn ogystal â Chynllun Busnes i'r Cyngor oedd yn amlinellu'r prosiectau y dymuna'r cyngor weithredu arnynt yn ystod 2014/15.

Trafodwyd sawl mater arall, yn cynnwys y drewdod sydd yn dod o waith carthffosiaeth Treborth, a phenderfynwyd y dylid cysylltu gyda'r Bwrdd Dŵr a Chyngor Gwynedd i ddatrys hyn. Nodwyd fod trigolion Caerhun wedi gofyn am i'r llwybr beics yn y Cae Chwarae gael wyneb newydd fyddai'n galluogi i'r plant reidio arno, a hefyd i gael ffens o gwmpas y cae. Nodwyd fod mainc newydd gan y cyngor bellach wedi ei gosod dros y ffordd i fynedfa Ysbyty Gwynedd.

Penderfynwyd trafod Llwybrau a Rheolau'r Fynwent yn y ddau gyfarfod nesaf, asesu cyflwr y llwybrau fel eu bod yn agored a diogel i bobl gerdded ar eu hyd ac ystyried a oedd angen addasu rheolau sydd ynglŷn â chladdu a defnydd o'r fynwent.


SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm


## Casgliadau Wythnos Cymorth Cristnogol 2014

Y swm a gasglwyd yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni oedd £4782.84.

Mawr yw ein diolch i'r holl gasglyddion ac i drigolion y Dyffryn am eu haelioni ac i'r rhai hynny wnaeth lenwi'r ffurflen fydd yn galluogi Cymorth Cristnogol i adennill y dreth incwm ar eu cyfraniad. Diolch i bawb am ymddiried yn Cymorth Cristnogol i leddfu anghenion y rhai sy'n llai ffodus na ni. Diolch hefyd i Adrian Williams am archwilio'r cyfrifon.

Mae'r swm uchod yn cynnwys £376, sef elw a rhoddion ariannol at y Bore Coffi, casgliad o £74.70 yn oedfa Cymorth Cristnogol yng Nghapel Jerusalem, rhoddion o £100 yr un gan Ysgol Sul Eglwys Shiloh, Tregarth a £25 gan Eglwys Llandegai.

Dyma fanylion y casgliadau o dŷ i dŷ at Wythnos Cymorth Cristnogol. Mae'r swm rhwng cromfachau yn nodi faint gasglwyd yn 2013. Daeth £4207.14 (£4271.08) i law mewn 1217 (1247) o amlenni. Ar gyfartaledd roedd £3.46 (£3.43) ym mhob amlen. Mae'r casgliadau wedi eu crynhoi fesul ardal gan nodi enwau'r rhai fu'n casglu.

**Bethesda** £947.40 (£989.47)
Trefnwyr: Rhiannon Efans a Walter Williams.
Casglyddion: Lester Bath, Elfed Bullock, Ceri Dart, Rhiannon Efans, Gwenno Evans, Angharad Hughes, Ian Hughes, Janet Hughes, Linda Hughes, Barbara Owen, Dafydd E Pritchard, Beti Rhys, Heulwen Roberts, Rhian Roberts, Barbara Smith a Walter Williams.

**Braichmelyn** £174.88 (£165.12)
Trefnydd: Griff Morris.
Casglyddion: Carys Dafydd, Ceinwen Hughes a Peter Williams.

**Carneddi** £352.39 (£377.91)
Trefnydd: Ieuan Wyn.
Casglyddion: Janet Buckle, Pat Corns, Valmai Davies, Alwen Hughes, Anwen Hughes, Selwyn Owen, Elizabeth Roberts, Karen Williams a Ieuan Wyn.

Gerlan £210.86 (£238.55)
Trefnydd: Neville Hughes.
Casglyddion: Davina Evans, Neville Hughes, Bethan Jones, Ann Williams a Sandra Williams.

**Mynydd Llandygái, Bryn Eglwys, Cilgeraint a Tanysgafell** £277.73 (£302.04)
Trefnydd: Elin Sanderson.
Casglyddion: Avril Alexander, Alex Ball, Gareth Griffith, Iona Rhys, Elin Sanderson a Jean Williams.

**Rachub a Llanllechid** £525.68 (£545.22)
Trefnydd: Paul Rowlinson.
Casglyddion: Carys a Martin Hebenstreit, Rob a Lesley Hughes, Gwenda Jones, Wendy Jones, Paul a Ffion Rowlinson, Megan Tomos a Helen Williams.

**Rhiwlas** £374.43 (£393.38) Trefnydd: Iona Jones.
Casglyddion: Steffan Job, Iona Jones, Nia Jones, Dyddgu Pritchard Owens a Dilys Parry.

**Talybont a Llandygái** £593.46 (£592.68)
Trefnydd: Neville Hughes.
Casglyddion: Enid Lloyd Davies, Catrin Hobson, Jean Hughes, Barbara Jones a Nerys Jones.

**Tregarth** £750.31 (£666.71)
Trefnydd: Eirwen Williams.
Casglyddion: Elizabeth Buckley, Bethan Crowe ac Esme, Gwenda Davies, Catrin Doyle a Brian, Margaret Hughes, Einir W Jones, Dafydd Roberts, Andrea Williams, Angharad Williams, Carys Williams, Gwyneth Williams a Rosemary Williams.

**OWEN'S TREGARTH**
**Cludiant Preifat a Bws Mini**



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr
**01248 602260**
**07761619475**



**www.owenswales.co.uk**

**JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR**
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
**01248 601754**
07770 568743 (symudol)
CITB

**BARBWR OGWEN**
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

**MODURON FREEMAN**
**Gwasanaeth a Thrwsio MOT, Weldio, Faletio, ac Atgyweirio Mân-ddamweiniau**
"Gwasanaeth proffesiynol y galllwch ddibynnu arno"
**Uned 1A, Gweithdy Penlan, Llandygái, Bangor LL57 4HU**
☎ 01248 364452
07733814233

**Malinda Hayward**
**(Gwniadwraig)**
**Awel Deg**
**Penygroes, Tregarth.**
**Am unrhyw waith gwnïo**
**- trwsio, altro ac ati -**
**Ffoniwch**
**01248 601164**

**Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni**

DEWCH I WELD EICH CYFREITHIWR LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG

☎
BETHESDA
01248 600171
bethesda@torglaw.co.uk

**Cyfreithwyr**
Y CYNGOR CYNTAF AM DDIM
EWYLLYSIAU A PHROFIANT
SYMUD TŶ

**L. Sturrs**
**a'i feibion**
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
**Hen Iard Stesion,**
**Ffordd y Stesion, Bethesda**
**Ffôn: 600953**
**Ffacs: 602571**
**lsturrs@googlemail.com**

**Dewis Fferyllfa**
**Ydych chi angen gweld y meddyg heddiw?**
**Os mai un o'r rhain ydyw...** camdreuliad, rhwymedd, dolur rhydd, peils, clwy'r gwair, llau pen, torri dannedd, brech clwt/cewyn, colig, brech yr ieir, llyngyr, dolur gwddw, tarwden y traed, heintiad llygad, llid yr amrant, briwiau yn y geg, doluriau annwyd, acne, llygaid sych, dermatitis, ferwca, poen cefn, casewinedd, llindag y wain, llindag y geg, clefyd crafu
**Gall eich Fferyllydd Cymunedol roi cyngor a thriniaeth gyfrinachol GIG, yn rhad ac am ddim, heb ichi orfod trefnu i weld eich meddyg teulu.**

Contractwyr Trydanol
**Jones & Whitehead Cyf**
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk
constructionline · NICEIC · ECA · CHAS

**MODURON PANDY Cyf.**
**MOT Diesel a Chatalydd**
**Atgyweirio MOT**
**Gwasanaethu Cerbydau**
**Cydbwyso Teiars**
**Batris**
**Tracio**
**01248 600619**
**moduronpandy@yahoo.com**
**www.moduronpandymotors.co.uk**
**Tregarth, Bangor,**
**Gwynedd LL57 4AY**
UNIPART CAR CARE CENTRE

# Croesair Mehefin 2014

**AR DRAWS**

7 Oes rhwng y Cerrig a'r Haearn (4)
8 Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (1,1,1)
9 Miss Rwdins (4)
10 Cyfarchiad y calan, "Blwyddyn Newydd Dda i chi, - ----- ohonynt" (1, 5)
11 Weiarles (6)
12 Rhwbio efo saim (3)
13 Ysgolion bach -- ---- oedd llawer o ysgolion cefn gwlad Cymru yn oes Fictoria (2,4)
14 Ateb y dirgelwch (6)
16 "Crefft gyntaf dynol ryw" (6)
19 Athletwyr, 100m neu draws gwlad (6)
21 Meddai yn ôl ac ymlaen (3)
22 Ystafell 'barchus' y cartref i ymwelwyr ers talwm (6)
24 Cartref brodorol y brodyr cochion (6)
25 I wneud 16 Ar Draws (4)
26 Coed y blagur duon (3)
27 Mae'n dianc er nad oes neb yn ei erlid yn ôl y ddihareb (4)

**I LAWR**


1 Pren ffrwyth Adda (6)
2 Anfonir y cyfarchiad gan y teulu i gyd (3,5)
3 Dyma'r ffordd orau i wagio'r pwrs (6)
4 Gwobr begera (6)
5 Gweithwyr ar long (4)
6 Ysbyty efallai, ac y mae lle i groesi afon wrth ymyl un yn Llŷn (6)
15 Tarddiad geiriau, neu ochr wrywol rhywun (8)
17 Gwlân i weu (6)
18 Rhynnu ac yn hel annwyd (6)
19 Lapiwch, a chysgodwch rhag hwn pan fyddwch yn 18 I Lawr (6)
20 "Hir yw pob ------" (dihareb) (6)
23 Goleuni cydweithwraig enwog Betsi Cadwaladr gynt (4)

**ATEBION CROESAIR MAI 2014**

**AR DRAWS** 1 Picell, 4 Cilddant, 8 Eisteddfod, 9 Egr, 10 Talog, 12 Disodli, 13 Swm, 14 Niwed, 16 Swp, 18 Gwasgod, 20 Sychwr, 21 Ein, 22 Anhrefnus, 25 Llwybrau, 26 Iasol.

**I LAWR** 1 Prentis, 2 Cas, 3 Lloergan, 4 Cof, 5 Lodes, 6 Aberdesach, 7 Torri, 11 Lampau Nwy, 12 Diwyd, 15 Distewi, 17 Parasol, 18 Gweill, 19 Gwair, 23 Hau, 24 Nes.

**Cafwyd atebion perffaith gan y canlynol; da iawn chi :** Rosemary Williams, Sara a Gareth Oliver, Elizabeth Buckley, Tregarth; Jean Hughes, Talybont; Ann a Dafydd Evans, Penisarwaun; Gareth William Jones, Bow Street; Ellen Whitehouse, Birmingham; Elizabeth Roberts, Rhostryfan; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Donna Coleby, Penwortham; Jean Vaughan Jones, Derek a Mai Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gwyl Owen, Gaynor Elis-Williams, Rita Bullock, Ann Carran, Bethesda; E.E. Roberts, Llanberis; Doris Shaw, Bangor; Elfed Evans, Llanllechid.



**Ond y cyntaf allan o'r het am y wobr y mis hwn oedd cynnig Dulcie Roberts, 1 Ffrwd Galed, Tregarth, Bangor LL57 4PF. Llongyfarchiadau mawr i chi.**

Atebion erbyn dydd Mercher, 2 Gorffennaf 2014 i:
'Croesair Mai', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

## Gwobr arbennig i Ysgol Abercaseg

Mae merch Lisa Jên Brown, Liwsi, yn 5 oed ac yn ddisgybl yn Ysgol Abercaseg. Yn ddiweddar derbyniodd yr ysgol wobr go arbennig. Lisa Jên sy'n esbonio mwy.




**Ffotograffiaeth Alan Dop Photography | www.alandop.com**

"Mae 'na ddeg ysgol dros Brydain wedi cael y fraint o ennill tlws Edwards Awards, gan fudiad Epilepsi Action - mudiad sy'n gwella bywydau pobl sy'n dioddef o Epilepsi. Un o'r ysgolion hynny, a'r unig un yng Nghymru, yw Ysgol Abercaseg.

Mae'r Edwards Awards yn cydnabod ysgolion sydd yn helpu plant sy'n dioddef. Mae'r ysgolion yma yn gwneud pethau gwych i gefnogi plant sydd efo Epilepsi, nid yn unig drwy eu haddysg ond drwy sicrhau fod bywyd o ddydd i ddydd yn parhau i fod mor normal â phosib.

Yn ddiweddar cafodd Liwsi ddiagnosis annisgwyl, fod ganddi Atypical Absence Epilepsy. Rhywbeth reit gyffredin mae'n debyg er i mi erioed glywed amdano o'r blaen, a hyd heddiw, heb gwrdd â neb sy'n dioddef o'r un peth. Hyd yma, mae'r broses wedi bod yn un hir a chymhleth i ddarganfod yn union beth sy'n digwydd i Liwsi pan mae hi'n cael 'seizures'. Tydi hi ddim yn ymateb i'r feddyginiaeth, ac mae'r system yma yn Ysbyty Gwynedd yn golygu nad oes 'na ddim help gan Nyrs arbenigol Epilepsi ar gael i ni fel teulu (mae 'na un i fod) ond stori arall ydy honna.

Beth sydd yn gyson, ac sydd yn gysur, yw'r ffordd mae athrawon a staff Ysgol Abercaseg wedi ymateb i gyflwr Liwsi.
A dweud y gwir, rhaid mynd mor bell â dweud fod athrawes Liwsi, sef Mrs Roberts, wedi chwarae rhan allweddol yn y diagnosis cynnar o gyflwr Liwsi.

Mi sylwodd Mrs Roberts fod Liwsi yn cael cyfnodau o edrych yn bell, weithiau yn gwrthod ymateb, ac yn edrych fel ei bod hi'n mynd i lesmair. Mi roeddwn i hefyd wedi sylwi ei bod hi ddim yn gwrando weithiau ac yn edrych fel ei bod yn colli canolbwyntiad. Ond drwy sgwrsio a chadw mewn cysylltiad agos â'r ysgol, daethom i'r canlyniad fod rhywbeth 'yn digwydd' i Liwsi.

Mae cannoedd o blant sy'n dioddef o Epilepsi yn cael bai ar gam, am ddiffyg canolbwyntio, am ymddygiad drwg, am beidio gwrando, ac yn aml yn syrthio drwy'r system Iechyd, a'r system Addysg heb ddiagnosis call! Wnes i erioed ddisgwyl y basai gen i blentyn yn dioddef o Epilepsi - a dweud y gwir, doedd gen i ddim syniad be OEDD o...

Ond, roedd hi'n amlwg fod Liwsi yn dioddef, a'i ffordd hi o ddisgrifio sut oedd hi'n teimlo oedd: "weithia dw i'n syrthio i gysgu yn yr ysgol, dw i ddim yn gallu clywed na gweld, ond ma'n llygada fi'n gorad".

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn Abercaseg yn gwybod yn union sut mae Liwsi'n teimlo ar ôl cael 'absence' (sydd weithiau'n digwydd sawl gwaith mewn diwrnod) maen nhw wedi magu agwedd digynnwrf at ei chyflwr, ac yn parhau i gydweithio'n agos efo ni fel teulu. Mae o'n gysur mawr gwybod fod Liwsi yn mynd i'r ysgol bob dydd gyda hyder ac yn ymddiried ym mhawb sydd yno.

Dan ni mor lwcus ym Methesda yn cael ysgolion mor dda!! Dw i mor falch fod Abercaseg wedi cael cydnabyddiaeth gan Epilepsy Action, nid yn unig yr athrawon a'r staff, ond hefyd y plant i gyd sydd yno. DIOLCH!"

Mae Grŵp Cymorth Teuluol lleol newydd gychwyn yng nghapel Penuel, Lôn Cariadon, Bangor ar gyfer pobl sy'n cael eu heffeithio gan epilepsi. Bydd y grŵp yn cyfarfod ar drydydd dydd Llun pob mis rhwng 3.30-5.30. Croeso i blant, teuluoedd, pobl ifanc ac oedolion ac unrhyw un sydd yn cael eu heffeithio gan epilepsi.
Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 601715.

T.G.S

**CONTRACTWR TOEAU AC ADEILADU**
2 Glan yr Afon, Carneddi, Bethesda LL57 3TB
☎ **08000 126 213** tgsroofing@hotmail.com

**Ffoniwch Mark i drafod eich anghenion adeiladu.**
**Mae gwarant 20 mlynedd ar ein toeau fflat!**

# PENODIAD PARTNERIAETH OGWEN



Mae Partneriaeth Ogwen wedi penodi Swyddog Datblygu newydd i gydlynu prosiectau'r Bartneriaeth yn y Dyffryn. Bydd Meleri Davies, sy'n byw yn Llanllechid, yn dechrau ar ei gwaith ganol Mehefin gan weithio deuddydd yr wythnos ar amrywiol brosiectau. Mae Meleri yn hannu o Gwm Prysor ger Trawsfynydd ond yn byw yn Nyffryn Ogwen ers bron i ddeng mlynedd. O ran gwaith, mae ganddi dros ddegawd o weithio ym meysydd polisi cyhoeddus, datblygu prosiect a chynllunio ieithyddol.

Cyn ymgymryd â'i swydd newydd, roedd Meleri'n rheoli tîm Sector Preifat a Busnes Comisiynydd y Gymraeg a Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn hynny. O ddydd i ddydd, roedd ei gwaith yn golygu rheoli tîm o Swyddogion Busnes ar draws Cymru ac ymwneud yn uniongyrchol â busnesau a'r sector cefnogi busnes.

Mae ganddi hefyd brofiad o weithio'n broffesiynol ac yn wirfoddol gyda'r trydydd sector. Hi oedd Swyddog y Dysgwyr Eisteddfod Genedlaethol Cymru Eryri yn 2005 ac mae hi hefyd yn weithgar tu hwnt ar nifer o bwyllgorau cymunedol ym Methesda. Mae Meleri yn aelod o Fwrdd Rheoli Neuadd Ogwen ac eisoes yn cydweithio'n agos â Rheolwyr newydd y Neuadd lle mae'n gweld nifer o gyfleoedd i gydweithio. Mae hi hefyd yn ymwneud yn gyson â gweithgareddau casglu arian i elusennau'r ardal. Meddai Meleri:

"Dw i'n edrych ymlaen yn fawr at weithio i'r Bartneriaeth. Dw i'n magu fy mhlant yn Nyffryn Ogwen ac mae cyfrannu tuag at greu cymuned iach a llewyrchus yn bwysig i mi. Fy mlaenoriaeth i fydd datblygu prosiectau sy'n creu gwahaniaeth yn gymunedol ac economaidd a dw i'n edrych ymlaen at yr her."

Yn ogystal ag ymgyfarwyddo â nifer o brosiectau sydd eisoes ar y gweill, bydd Meleri yn datblygu presenoldeb y Bartneriaeth ar y Stryd Fawr yn eu Swyddfa newydd fydd yn agor ymhen y mis. 26 Stryd Fawr, Bethesda yw pryniant eiddo cyntaf Partneriaeth Ogwen a bydd Heddlu Gogledd Cymru yn denantiaid. Bydd gofod swyddfa, ystafell gyfarfod a gofod siop hefyd i'w ddatblygu o fewn y misoedd nesaf.

Os hoffech gysylltu â Meleri neu'r Bartneriaeth, mae croeso i chi ei e-bostio ar partneriaeth@ogwen.org neu ffonio 01248 602131.

CAB Gwynedd & De Ynys Môn

cyngor ar bopeth

**Angen cyngor?**

**Rydym yma i helpu.**
**Pwy bynnag ydych chi.**
**Beth bynnag fo'r broblem.**

Cysylltwch â ni

**08444 772 020** (Llinell Gymorth Cymru)
Rhwng 9.00 yb a 4.30 yp Dydd Llun – Dydd Gwener

Neu

**0845 450 3064** (Llinell Gymorth Gwynedd)
Rhwng 10 yb a 3 yp Ddydd Llun – Ddydd Gwener
(yn ymestyn i 7 yh Dydd Llun a Dydd Iau)

**Mae gwybodaeth hefyd i gael ar y we:**
www.adviceguide.org.uk

Rhif elusen gofrestredig 1092359

**YSGOL YRRU**

**DerfeL**

**07982 076 455**
**01248 605 325**

**derfelowen@sky.com** **Haulfryn - Llanllechid**



**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

**alunffred.jones@cymru.gov.uk**



**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

**williamshy@parliament.uk**

# Nyth y Gân

**Ein Heisteddfodwyr Ifanc**

Yn gewri y blagurant, er yn fach
Rhoi'n fawr i'n diwylliant;
Mynd o nerth i nerth a wnânt
I haeddu clod a llwyddiant.

**Y Fordaith**

Fe'i ganed ef gerllaw y lli
Â'i ffroenau'n llawn o heli,
A'r llanw cryf a'i denodd ef
I erwau glas y weilgi.

Ar fwrdd Rhiannon yr aeth o
I ddechrau gyrfa hwylio,
Nid hawdd oedd cefnu wrth y drws
A dagrau'n y ffarwelio.

Mawreddog oedd y llongau gynt,
Sawl gweddi gafwyd arnynt
Pan fyddai'r criw mewn storom gref
Tynhau wnâi'r gadwyn rhyngddynt.

Fe geir ar fordaith lawer cnaf,
A'r niwl yw'r gelyn mwyaf;
Mae'r llong bryd hyn mewn dryswch llwyr
Yn sobri'r morwyr dewraf.

Rhyfeddol yw'r gonestrwydd sydd
Ar fôr â'i nerthol stormydd,
Ond pan fo hindda, brad sy'n hel
O dan ei wyneb llonydd.

Pan rwygai'r llong drwy'r môr â'i li
Ceid canu dan hwylbrenni,
Ond pan fel meddwyn ambell waith
Wynebau fyddai'n gwelwi.

O'r golwg y mae rhoddion Iôr
A ffydd sydd megis angor,
A gwarchod wnâi y criw i gyd
Ar daith i'r gwledydd tramor.

**Y Goleudy**

Sylwn â hi'n noswylio ar y dewr
drwy y don yn hwylio,
A'r wylan yn hir wylio
O draw ei belydrau o.

**Cariadon ar y Traeth**

Di-rif yw cyfrinachau'r don,
Mae rhai yn lleddf a rhai yn llon,
A chânt eu rhannu hyd y traeth
Gan ewyn glân mor wyn â'r llaeth.

Sawl cusan felys a sawl gwên
A rannwyd rhwng yr iau a'r hen
Fan yma ar y llecyn braf
Ar noson hwyr o hirddydd haf.

Y nos a dynnodd yno'i llen
I'r lloer gael gwenu uwch eu pen;
O'i huchel fan fe fwriodd hi
Ei golau tyner ger y lli.

Daw mwy o ramant ger y don
Dan arian liw y lleuad lon,
A harddach fyth edrychai'r ferch
Yn sŵn y môr wrth rannu serch.

**Dafydd Morris**

# Neuadd Ogwen ar fin ail-agor

O fewn y ddeufis nesaf, bydd Neuadd Ogwen yn agor ei drysau unwaith eto fel Canolfan Gelfyddydol Gymunedol i Ddyffryn Ogwen. Mae'r gwaith adeiladu yn prysur ddod i derfyn ac mae rhaglen o ddigwyddiadau cyffrous wedi ei llunio.

Ers dechrau Ebrill, mae dau Reolwr wedi eu hapwyntio i'r Neuadd gyda Rhys Davies yn gyfrifol am reolaeth busnes yr adeilad a Dilwyn Llwyd yn gyfrifol am ddatblygu rhaglen. Eisoes mae Gruff Rhys wedi ei fwcio i agor y Neuadd ar y 1af o Awst ac mae artistiaid byd-enwog eraill, megis Catrin Finch i ddilyn. Mae'r rheolwyr wedi bod yn brysur yn datblygu cynlluniau tymor hir a gwefan newydd i'r fenter a gellir cael mwy o wybodaeth ar www.neuaddogwen.com

Un o flaenoriaethau'r rheolwyr dros y ddeufis nesaf yw sicrhau fod Neuadd Ogwen yn dod yn galon cymuned Bethesda unwaith eto. Meddai Dilwyn Llwyd:

"Mae'r Neuadd yn ganolfan i bawb boed hynny'n gyngerdd gyda Rhys Meirion, yn ornest reslo, yn ymarfer côr, yn gynhyrchiad drama neu'n fore coffi. Mae Rhys a finnau'n edrych ymlaen at weithio efo pobl yr ardal i sicrhau fod y Neuadd yn llwyddiant aruthrol ac yn destun balchder i bawb."

I'r perwyl hwn, mae'r ddau'n gweithio ar gynllun i gydlynu gwirfoddolwyr i'r Neuadd ac maent yn annog unrhyw un sydd â diddordeb gwirfoddoli ychydig oriau'r wythnos i weithio yn y Neuadd i gysylltu â nhw. Mae'r ddau'n gweithio o swyddfa dros dro yn 57 Stryd Fawr, Bethesda ar hyn o bryd ac mae croeso i chi alw i mewn i gyflwyno syniadau neu i wirfoddoli. Fel arall, gallwch anfon e-bost at y rheolwyr ar post@neuaddogwen.com

## CHWILAIR MEHEFIN 2014
### Priodas

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I |
| S | V | S | A | N | R | H | E | G | I | O | N | H | M | E | I | M | G | V | H |
| M | **M** | **O** | **R** | **W** | **Y** | **N** | **I** | **O** | **N** | D | W | O | H | U | Z | M | X | V | A |
| D | D | N | A | P | B | A | U | Q | U | S | D | G | W | E | S | T | Y | O | F |
| R | P | Y | G | Q | L | Z | G | R | H | R | C | U | M | W | N | O | Y | R | I |
| A | S | Z | W | U | O | T | F | D | W | X | U | P | W | R | H | C | Q | H | W |
| E | H | O | A | Y | D | E | E | Y | G | E | O | M | H | N | E | P | T | T | C |
| B | B | C | S | U | A | U | A | J | P | L | T | M | O | I | V | V | D | C | B |
| B | F | R | A | F | U | U | O | G | J | V | I | I | N | I | R | R | X | I | M |
| H | T | T | N | O | S | K | O | P | W | R | D | O | C | M | K | H | C | B | O |
| R | C | X | A | V | R | Y | H | S | S | I | I | T | M | R | C | E | F | Y | J |
| D | Z | H | E | B | C | W | Y | O | W | E | S | C | R | R | A | T | I | X | N |
| I | L | X | T | J | J | W | M | E | T | B | U | W | E | T | S | E | X | M | D |
| X | K | F | H | U | L | P | D | S | C | A | Q | F | Y | A | O | I | L | F | E |
| R | Z | Q | R | G | O | D | E | C | I | T | D | D | W | G | W | S | L | Z | E |
| B | E | A | E | J | A | W | K | N | J | O | C | C | L | N | L | R | V | O | G |
| J | P | W | P | G | G | S | U | O | I | W | E | J | J | Q | U | L | F | S | V |
| T | X | E | U | G | H | L | S | R | L | R | Z | E | A | F | X | I | W | T | Z |
| H | K | V | A | G | L | B | P | N | B | K | A | D | S | I | K | O | G | D | H |
| B | S | I | U | R | O | X | A | G | X | R | A | E | E | K | K | D | A | N | T |

Gan fod y mab wedi priodi y mis diwethaf roeddwn yn meddwl efallai mai dyma destun i'r chwilair y mis yma. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? Mae LL, CH, DD, TH, NG a RH yn un llythyren yn y Gymraeg, ond at bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân.

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW erbyn 2 Gorffennaf os gwelwch yn dda. Bydd gwobr o £5 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd neb yn dod o hyd i'r deuddeg yna'r sawl sy'n cael y nifer fwyaf fydd yn cael y wobr.

Rwyf yn edrych allan trwy'r ffenestr ar awyr las, ac yn meddwl efallai fod rhai ohonoch wedi bod neu yn meddwl ymweld â'r llefydd a ymddangosodd yn y chwilair y mis diwethaf.

Dyma atebion Mai. Aberglaslyn, Carneddau, Erddig, Gerddi Bodnant, Hafod y Llan, Plas Newydd, Plas yn Rhiw, Porth Meudwy, Porth y Swnt, Segontium, Tŷ Aberconwy, Tŷ Mawr Wybrnant. Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir: Merfyn a Laura Jones, Tregarth; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Doris Shaw, Bangor; Rosemary Williams, Tregarth; Gwilym Owen, Bethesda; Myfanwy Jones, Gaerwen; Elizabeth Buckley, Tregarth; Mair Jones, Bethesda; Gwen Davies, Tanysgafell, Bethesda; Lois Evans, Bethesda; Elfed Bullock; Bethesda, Marilyn Jones; Glanffrydlas, Mrs G. Clark, Tregarth; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Herbert Griffiths, Tregarth; Eirlys Edwards, Bethesda; Lois Angharad Hughes, Gerlan. Enillydd Mai oedd: Myfanwy Jones, Tan Rhiw, Gaerwen, Ynys Môn, LL60 6BL.
**Enillydd Ebrill oedd** :- Mair Jones, Bryn Onnen, Ffordd Bangor, Bethesda.

## I.D.R.

**Gwaith Coed ac Adeiladu Cyffredinol**
Am waith o safon uchel
Am bris diguro
Am waith mawr neu fychan
**Cysylltwch ag Iwan**
☎ **07553 977275**
☎ **01248 602062**

**Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer**

## Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

## Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (*gyda'r nos* 602767)
***Blodau ar gyfer pob achlysur***

**Priodasau, Angladdau ayyb**
**Ffres a Sidan**

*Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'*

**Arbenigwr mewn lloriau coed caled**

## A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

## WU SHU KWAN

**Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)**

**Dosbarthiadau yng Nghanolfan Gymdeithasol Tregarth bob nos Fercher 6.30 tan 8.30**

**Un sesiwn am ddim os dewch â'r hysbyseb hwn hefo chi**
♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
**Manylion gan Jake neu Elena Fitzpatrick - 01248 602416 neu galwch heibio'r dosbarth**

## J. TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
**07770 900531**
**01248 600282**
jtemplemorris@btinternet.com

## BYSUS D. P. Owens RHIWLAS

**01248 361044 a 07771 634195**



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

**Bysus Gwyrdd Rhiwlas**

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

## Modurdy Central

**Ceir ail-law ar werth**
**M.O.T. ar gael**
**Hefyd**
**Trwsio a Gwasanaeth**
**Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda**
☎**601031**

Sefydlwyd 1969

## m.hughes a'i fab

**CONTRACTWYR TOI**
2 Hen Aelwyd, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.*
*Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.*
*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

## Cerbydau Penrhyn

**CABIAU A BYSIAU MINI**
**Ffôn: (01248) 600072**

**Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd**
**Contractau**

**Contractwyr i Wasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru**

## Blodau Racca

PENISARWAUN

*Planhigion gardd a basgedi crog o'r ansawdd gorau*
*- gan hogan o Rachub*

*Ffôn: 01286 870605*

## Elwyn Jones & Co

**hefyd yn masnachu fel**
**Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd**

**- Cyfreithwyr -**
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

***Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol***
***Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar***

Lexcel

*Swyddfeydd eraill:*

| Llangefni | Amlwch | Benllech |
|---|---|---|
| (01248) 723106 | (01407) 831777 | (01248) 852782 |

| Caernarfon | Pwllheli |
|---|---|
| (01248) 673616 | (01758) 703000) |

## Hysbysebu yn y Llais

I hysbysebu yn Llais Ogwen ac i drafod telerau a'ch holl anghenion cysylltwch â:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

## MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

Perchennog
**A. Ll. Williams**

**Stryd Fawr, Bethesda**
**♦ PROFION M.O.T. ♦**

**GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO**
**♦TEIARS A BATRIS♦**
**GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN**

☎ 600723
Ffacs: 605068

Llais Ogwan 20

# GAIR O'R DOSBARTH

## Ysgol Dyffryn Ogwen

**Noson o Adloniant**
Cynhaliwyd Noson o Adloniant yn neuadd yr ysgol nos Fercher, Mai 14. Y prif reswm dros gynnal y noson oedd er mwyn i'r unigolion a'r grwpiau oedd wedi bod yn cystadlu yn eisteddfodau'r Urdd gael cyfle i berfformio o flaen cynulleidfa ehangach.

Un elfen braf iawn o'r noson oedd bod yr ysgolion cynradd hefyd yn cymryd rhan a chafwyd perfformiadau rhagorol ganddynt. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eu cefnogaeth i'r noson.

Braf iawn oedd gweld y neuadd yn llawn, a llwyddwyd i gasglu £600 tuag at Ymchwil Cancr Cymru.

**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i'r criw o flwyddyn 9 a enillodd gystadleuaeth yr Ymgom yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd sef Martha Glain, Owain Morgan, Buddug Roberts a Sophie Williams.

Mae nifer o'n disgyblion hefyd wedi bod yn llwyddiannus yng nghystadlaethau gwaith cartref yr Urdd:

| | |
|---|---|
| Beca Nia | – 1af Rhyddiaith - blwyddyn 7 |
| Buddug Roberts | – 1af Rhyddiaith - blwyddyn 9 |
| Hannah Cook | – 2il Rhyddiaith i Ddysgwyr, B8 a 9 |
| Martha Glain | – 1af Gwaith Creadigol 3D B9 |
| Martha Glain | – 2il Gwaith Lluniadu 2D B9 |

**Cwrs Sgiliau Byw**



Mae criw o ddisgyblion blwyddyn 11 yn gwneud cwrs sgiliau byw ac wedi bod yn brysur iawn yn chwynnu a chasglu sbwriel a thacluso yn Llys Dafydd gyda Mrs Glenda Parry fel rhan o'u cwrs ac fel rhan o gynllun Cadw Cymru'n Lân.

**Osian Capten Cymru**



Llongyfarchiadau i Osian Hughes o flwyddyn 7 ar ei lwyddiant ar y meysydd pêl-droed. Yn ddiweddar bu Osian yn gapten ar dîm dan 12 Cymru fu'n chwarae yn Ewood Park, maes yr enwog Blackburn Rovers. Fe welwch Osian yn y llun yn sefyll yn falch iawn ar gyfer yr anthem genedlaethol.

**Cludo Baton Gemau'r Gymanwlad – Glasgow 2014**
Llongyfarchiadau i Mari Davies ar gael ei dewis i gludo baton Gemau'r Gymanwlad ym Mhlas Menai. Bu hefyd yn cario ffagl y Gemau Olympaidd dros Bont Menai ddwy flynedd yn ôl.
Mae Mari a Iago ei brawd yn hwylwyr profiadol ac yn ddiweddar llwyddodd y ddau i ddod yn bencampwyr ieuenctid Cymru mewn cystadlaethau ym Mhwllheli – Iago yn unigol a Mari yn un o ddwy. Mae Mari hefyd yn bencampwr Prydain. Cafodd Iago wahoddiad gan Gymdeithas Hwylio America i dreulio ychydig ddyddiau yn ymarfer gyda'u carfan nhw dros yr haf. Cyfle anhygoel. Llongyfarchiadau mawr iawn i'r ddau.

**Carfan Griced Cymru**
Llongyfarchiadau i Mathew Buchanan blwyddyn 8 ar gael ei ddewis unwaith eto i garfan griced Cymru dan 13.

**Athletau**
Llongyfarchiadau i Aled Owsianka ar ennill y naid uchel yng nghystadleuaeth athletau Eryri. Bydd yn cynrychioli tîm Eryri ym mhencampwriaeth Cymru yng Nghaerdydd. Pob lwc Aled!

**Cystadleuaeth Gohebwyr Ifanc, Cadwch Gymru'n Daclus**
Llongyfarchiadau i Ella, Meilir, Beca a Dafydd o flwyddyn 7 ar ennill gwobr a chydnabyddiaeth gan y beirniad – y darllenydd newyddion Huw Edwards - yng nghystadleuaeth Gohebwyr Ifanc, Cadw Cymru'n Daclus. Cynhyrchodd y criw fideo yn hysbysebu'r ardal yn ogystal â thynnu sylw at y pethau sy'n digwydd er mwyn cadw'r pentref a'r ardal yn daclus. Mae'r pedwar wedi derbyn gwahoddiad i fynd i dderbyn eu gwobr yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd, fis Gorffennaf. Da iawn chi! Mae'n bosib gweld y fideo ar wefan Youtube yr ysgol sef www.youtube.com/ysgoldyffrynogwen

**Cystadleuaeth 'Pentref a Foddwyd' – Llyfrgell Gwynedd**
Llongyfarchiadau i Martha Glain Evans, blwyddyn 9 am ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth 'Pentref a Foddwyd', Llyfrgell Gwynedd. Roedd rhaid iddi gyfansoddi cerdd yn seiliedig ar hanes trist boddi pentref Capel Celyn. Y Prifardd Twm Morys oedd y beirniad a bydd cerdd Martha i'w gweld ar wefan Llyfrgell Gwynedd yn fuan. Llongyfarchiadau mawr iddi!

## Ysgol Llandygái

**Paid Cyffwrdd - Dweud!**
Unwaith eto eleni cawsom ymweliad gan Marc yn ymdrin â pheryglon cyffwrdd meddyginiaethau a sylweddau o gwmpas y cartref a'r ysgol. Roedd yn berfformiad lliwgar a llawn hiwmor ac roedd ymateb y disgyblion yn ardderchog.

**Wythnos Cymru Cŵl**
Rydym wedi bod yn dathlu ein Cymreictod yn ddiweddar drwy nifer o weithgareddau cyffrous. Daeth Mr Wyn Davies atom i roi cyflwyniad ar lwyau caru Cymreig a chawsom weld casgliad o'i waith. Yna aeth pawb ati i gynllunio llwyau, i greu llwyau o does, astudio patrymau Celtaidd ac yn y blaen.

Cawsom fore difyr yng nghwmni telynor hynod o ddawnus sef Mr Dylan Cernyw. Roedd yn perfformio casgliad o hwiangerddi ac alawon traddodiadol Cymreig a chafodd rhai o'r disgyblion gyfle i chwarae'r delyn. Braf oedd clywed Mr Morris a Mrs Pritchard yn rhoi datganiadau hefyd. Bu disgyblion yr Adran Iau'n gwisgo fel arwr Cymreig o'u dewis nhw ac i gloi'r wythnos bu'r disgyblion yn dawnsio yn y disgo i gerddoriaeth bop Gymraeg. Roedd gweithgareddau trawsgwricwlaidd wedi eu trefnu ym mhob dosbarth drwy gydol yr wythnos. Wythnos i'w chofio ac roedd Cled Celt wrth ei fodd yn clywed disgyblion yn mwynhau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cyfeiriannu ym Mharc Padarn**
Aeth criw o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 i Lanberis i gystadlu mewn Cystadleuaeth Gyfeiriannu i Ysgolion Cynradd yr ardal. Roeddent wedi mwynhau'n fawr ac yn amlwg yn dysgu sgiliau newydd ac yn cydweithio wrth ymwneud â'r tasgau.

**Traws Gwlad - Yr Urdd**
Rhedeg oedd hanes criw bychan o ddisgyblion gymerodd ran yn y ras draws gwlad hon sef cystadleuaeth yr Urdd sydd yn digwydd yn flynyddol ar dir Y Faenol. Llongyfarchiadau i bawb gymerodd ran - tipyn o gamp!

**Trip Addysgol Blwyddyn 6**
Aeth disgyblion hynaf yr ysgol ar daith i'r Amgueddfa Lechi ym Mharc Padarn, Llanberis yn ddiweddar fel rhan o thema'r tymor hwn, 'Chwarel y Penrhyn'. Er i'r tywydd fod yn siomedig cawsant amser da yn gwrando ac yn dysgu am y cyfnod gan ddod i ddeall amgylchiadau byw a gweithio'r oes.

Llais Ogwan 21

# Ysgol Pen-y-bryn

**Dathlu ym mlwyddyn 6!!!**
Llongyfarchiadau enfawr i Sean Buchanan o ddosbarth Elidir sydd wedi cael ei ddewis i gynrychioli Cymru yn y tîm criced dan 11 oed. Llongyfarchiadau hefyd i Dyddgu Jones a gafodd yr ail wobr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng nghystadleuaeth Rhyddiaith dan 12 oed. Camp a hanner!

**Dreigiau Doeth yn cyfarfod Prif Weinidog Cymru!**
Cafodd Dreigiau Doeth yr ysgol y fraint o gyfarfod Prif Weinidog Cymru, Mr Carwyn Jones yn Eisteddfod Yr Urdd, i sôn am eu gwaith o hybu'r Gymraeg ar yr iard. Bu'r Dreigiau'n siarad ym mhabell Cyngor Gwynedd ar y bore Gwener.

**Gweminar**



Cafodd plant Glyder ac Elidir fod yn rhan o fenter newydd a chyffrous, sef gweminar am hawliau plant. Yn Ysgol Brynaerau, Pontllyfni yr oedd y weminar yn digwydd ond roedd yn cael ei darlledu drwy'r we i ysgolion a oedd wedi cofrestru. Yn siarad roedd Mr Keith Towler, sef Comisiynydd Plant Cymru. Difyr oedd dysgu am hanes yr hawliau, eu pwrpas a'r gwaith sydd yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod plant ar draws y byd yn cael yr un hawliau ac yn cael eu trin gyda thegwch.

**Taith Gerdded**



Ar Fai 21ain bu plant yr ysgol ar daith gerdded ar hyd Lôn Las Ogwen fel ffordd o gasglu arian tuag at Ymchwil Cancr. Cawson nhw saib yng Nghlwb Rygbi Bethesda tra'n mwynhau diod a rhywbeth bach i'w fwyta. Diolch o galon i bawb o noddodd y plant ac i'r rhieni am eu help, yn enwedig Mrs Annette Adl, Mrs Ceinwen Hughes a Mrs Ceri Owain. Mi gasglon ni swm anhygoel o £152.73 yn ystod y p'nawn ac edrychwn ymlaen at wybod beth fydd y swm terfynol gyda'r arian noddi.

**Cyngerdd**
Llongyfarchiadau i'r genod a berfformiodd eu hymgom yng nghyngerdd Ysgol Dyffryn Ogwen ar Mai 14eg. Roedd perfformiadau'r holl blant yn glodwiw a daethant â balchder i'r fro.

**Gweithdy Celf**
Ar Fehefin 14eg aeth dosbarth Tryfan i'r Brifysgol ym Mangor ar gyfer gweithdy celf. Mia Haf Evans oedd wedi ennill cystadleuaeth arlunio, a gweithdy celf ar gyfer ei dosbarth gan yr arlunydd Bedwyr Williams oedd rhan o'r wobr. Roedd pawb wedi mwynhau arlunio trwy'r dydd.

**Ras Draws Gwlad Y Faenol**
Bu tua 1,000 o aelodau ysgolion cynradd sy'n aelodau o'r Urdd yn cystadlu. Llongyfarchiadau i bawb o Ben–y-bryn fu'n rhedeg.

**Rygbi Tag**
Diolch yn fawr i fyfyrwyr Coleg Menai am drefnu diwrnod o gystadlu rygbi tag eto eleni. Bu timau o Ysgolion Tregarth, Llanllechid a Phen-y – bryn wrthi'n cystadlu'n galed yn erbyn ei gilydd. Llongyfarchiadau i'r tîm buddugol o Ben-y-bryn a gobeithio y bydd braich Ellie yn gwella'n fuan!

**Rygbi'r Urdd**
Bu hogia Pen-y-bryn mewn cystadleuaeth arall ar gaeau Clwb Rygbi Caernarfon. Cysylltiad llawn oedd y gystadleuaeth yma (coeliwch fi mi oedd hi!!) a bu'r tîm yn chwarae rygbi o safon uchel iawn. Diolch o galon i Mr Dylan Davies am hyfforddi'r criw a llongyfarchiadau mawr iddynt ar eu llwyddiant yn cyrraedd y rownd nesaf yn Aberystwyth. Pob lwc hogia! Diolch hefyd i'r holl rieni am eu cefnogaeth ar y noson.


**Nofwyr o fri**
Hoffai'r ysgol longyfarch Jem Field a Rory White ar eu llwyddiant yng Ngala Nofio Gogledd Cymru. Cafodd Rory 1af ac 2il mewn dwy ras gyfnewid ac mi ddaeth Jem yn 5ed yn yr holl gystadleuaeth. Da iawn chi hogia; rydym yn falch iawn ohonoch.

## Ysgrifennu at y 'Schindler Prydeinig'

Mae disgyblion Blwyddyn 6 Ysgol Llanllechid wedi bod yn gwneud ymchwil i'r Ail Ryfel Byd yn ddiweddar. Fel rhan o'u hymchwil, dysgodd y plant am ŵr ifanc o Lundain o'r enw Nicholas Winton a achubodd 669 o blant Iddewig o Tsiecoslofacia cyn dechrau'r Ail Ryfel Byd. Mae'n cael ei adnabod fel y 'Schindler Prydeinig', er mai fel dyn cyffredin, ac nid fel arwr, yr oedd yn ei ystyried ei hun.

Dychmygwch syndod y plant o ddarganfod fod Nicholas Winton yn dal yn fyw ac yn dathlu ei ben-blwydd yn 105 oed eleni! Aethant ati i greu clamp o gerdyn iddo, ac ysgrifennu negeseuon personol ato yn diolch iddo am ei ysbrydoliaeth.

Dyma lun o Nicholas Winton gyda'r cerdyn lliwgar, sydd bellach yn hongian yn ei ystafell. Os hoffech wybod mwy am hanes y dyn cyffredin ond anghyffredin hwn, mae'r llyfr 'If it's not impossible...' gan Barbara Winton newydd gael ei lansio yng Ngŵyl y Gelli.



**Syr Nicholas Winton, y "Schindler Prydeinig" a achubodd 669 o blant rhag yr Holocost yn dal ei gerdyn gan ddisgyblion Ysgol Llanllechid.**

# Ysgol Llanllechid

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd**



Llongyfarchiadau i'r Gân Actol ar eu perfformiad yn Eisteddfod yr Urdd yn Y Bala. Perfformiodd y plant eu gorau glas; roedd eu brwdfrydedd yn heintus a diolch i'r holl rieni a ffrindiau'r ysgol am eu cefnogaeth! Da iawn - bob un ohonynt. Cafodd Elis Evans ei ddewis a'i anrhegu fel y perfformiwr gorau o'r holl ganeuon actol. Mae hyn yn gryn anrhydedd, ac ar ran holl gymuned Dyffryn Ogwen, llongyfarchwn Elis o waelod calon. Da iawn hefyd i Gwydion Rhys ar gystadlu ar yr unawd llinynnol a'r unawd cerdd dant.

Llongyfarchiadau gwresog i Idris ar gyrraedd y brig! Braf oedd gweld ei gampwaith yn y Babell Gelf – gwaith peintio sidan bendigedig!

**Llongyfarchiadau i'n cyn-ddisgyblion**
Llongyfarchiadau i'n cyn- ddisgyblion a ddaeth i'r brig yn Eisteddfod yr Urdd. Llongyfarchwn Martha, Beca Nia a Buddug, ar eu llwyddiant gyda chystadlaethau ysgrifenedig/celf. Llongyfarchiadau yn ogystal i Buddug, Owain, Sophie a Martha a gafodd y wobr gyntaf ar yr ymgom. Da iawn chi ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen!

**Siarter Iaith**
Bu rhai o'n disgyblion yn cymryd rhan mewn digwyddiad arbennig sef Cyfrifiad Siarter Iaith Gwynedd ym Mhabell Gwynedd yn Eisteddfod yr Urdd yn Y Bala. Cafodd Cerwyn, Elin a Gwydion hwyl yn cymryd rhan mewn gêm glapio gyda gweddill ysgolion y dalgylch. Mae ein disgyblion wedi bod wrthi'n brysur yn creu, casglu a ffilmio'r gemau chwaraeon buarth gwreiddiol e.e. Moch Coch/Dyn y Lleuad/Bobo Drwg

**Cyngerdd Pontio**
Cafwyd cyfle i gymryd rhan mewn cyngerdd arbennig a drefnwyd ar y cyd rhwng Theatr Genedlaethol Cymru a Pontio yng nghapel Jerusalem ym Methesda. Canodd plant bach Adran Babanod/Cyfnod Sylfaen hen ffefrynnau fel Hen Feic Peniffarddin ac yn cyfeilio iddynt ar y gitâr roedd Cerys Elen, sydd wedi hogi eu sgiliau yn ein Clwb Gitârs wythnosol. I gloi ein rhan ni, cafodd y Gân Actol weld golau dydd unwaith yn rhagor a phawb yn gartrefol braf yn trio eu gorau. Cyflwynodd Mr Neville Hughes dlws yr actor gorau i Elis Evans - braint ac anrhydedd iddo gael ei dderbyn yn ei gymuned ei hun. Cafwyd cyngerdd gwerth chweil unwaith yn rhagor a diolch i chi rieni am fod mor barod eich cefnogaeth.

**Cyngerdd Ysgol Dyffryn Ogwen**
Llongyfarchiadau i Ysgol Dyffryn Ogwen ar gynnal cyngerdd i godi arian tuag at ymchwil cancr MacMillan. Diolch am y gwahoddiad i gymryd rhan yno gyda gweddill ysgolion y dalgylch. Cafwyd noson werth chweil a braf gweld yr amrywiaeth o eitemau.

**Cyngerdd Ysgol Llanllechid gyda Chôr Rygbi Gogledd Cymru**
Bydd plant o`r Adran Babanod/Cyfnod Sylfaen a'r Adran Iau yn perfformio mewn cyngerdd arbennig yn yr ysgol a gynhelir ar 9 Gorffennaf gyda Chôr Rygbi Gogledd Cymru. Dewch yn llu!

**Cae`r Graig**
Bu'r ymweliad â fferm Cae`r Graig, Rhydyclafdy yn un llwyddiannus iawn. Diolch i'r hen Gwyndaf am addysgu'r plant am draddodiadau cefn gwlad. Dyma beth yw addysg go iawn!

**Plas Mawr**
Aeth dosbarth Mr Huw Edward Jones i Gonwy i Blas Mawr i ddysgu mwy am hanes y Tuduriaid. Rhyfeddodd pawb at bensaernïaeth y tŷ hynafol gan wirioni ar y profiad uniongyrchol o gael dysgu sut roedd pobl yn byw yn yr oes hon.

# Ysgol Tregarth

**Yr Hwylfan Heini**
Bu cynnwrf mawr yn yr ysgol pan ddaeth criw o ddynion i osod offer campfa newydd tu allan ar gae'r ysgol. Mae 8 gorsaf wedi eu gosod gyda'r offer yn cael ei ddefnyddio i wella iechyd a ffitrwydd y disgyblion. Yr enw a ddewiswyd ar yr offer yw'r Hwylfan Heini ac mae'r disgyblion wrth eu boddau yn ymarfer a chadw'n heini arno yn ystod amser chwarae.

**Waliau dringo**



Mae'r ysgol yn ffodus iawn o fod wedi derbyn waliau dringo newydd i'r Cyfnod Sylfaen sydd wedi eu lleoli yn nhu blaen yr ysgol a hefyd waliau i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 ar yr iard gefn.

**Tre'r Ceiri**
Fel rhan o thema 'O am Fyd Rhyfeddol', trefnwyd i ddosbarthiadau Ogwen a Ffrydlas gael ymweliad ag un o ryfeddodau Cymru, sef Tre'r Ceiri. Fe'n harweiniwyd ar y daith archaeolegol gan Anita Daimond. Cafodd un dosbarth ddiwrnod heulog, braf i ddringo i'r copa, ond yn anffodus nid felly'r dosbarth arall a gafodd niwl a glaw! Roedd yn brofiad bendigedig a phob plentyn yn gwerthfawrogi pa mor rhyfeddol



oedd yr olion o'r cyfnod Celtaidd. Roedd pawb yn rhyfeddu at yr olygfa a'r muriau anhygoel ac yn hynod falch o gael dysgu am le na fu'r un ohonynt ynddo o'r blaen. Profiad bendigedig.

**Cyngerdd yn Ysgol Dyffryn Ogwen**
Roedd yr ysgol yn falch o dderbyn y gwahoddiad a ddaeth o'r Ysgol Uwchradd i gymryd rhan mewn cyngerdd elusennol nos Fercher, Mai 14eg. Aeth ein grŵp llefaru a'r ensemble offerynnol i'n cynrychioli yno, ac fe roddodd y ddau grŵp berfformiad ardderchog a ganmolwyd yn fawr gan y gynulleidfa. Braf hefyd oedd gweld cyn-ddisgyblion yn perfformio yng nghorau a phartïon Ysgol Dyffryn Ogwen. Noson wych o adloniant i ddathlu doniau'r Dyffryn.

**Menter yr Ifanc**
Cafodd Dosbarth Ffrydlas gyfle i weithio o dan arweiniad Mr Selwyn Griffith am ddeuddydd yn dysgu am fyd busnes ar brosiect o'r enw Ein Cenedl. Dysgodd y disgyblion am bwysigrwydd cadwyn o fusnesau yn cyflenwi ei gilydd, lleoli busnes, ac yn benllanw i'r gweithgareddau, cawsant gynllunio cynhwysydd ar gyfer sudd afal. Cafwyd profiadau gwerthfawr, a phwy a ŵyr nad yw'r Alan Sugar nesaf wedi ei ysbrydoli yn ystod y deuddydd yma.

**Cymanfa Ganu**
Cafodd yr ysgol wahoddiad i ganu yng Nghymanfa Ganu Eglwys Amana, Mynydd Llandygai yn ddiweddar. Canodd y disgyblion yn swynol iawn a’r holl gynulleidfa yn eu canmol yn fawr. Diolch i chi blant am fod yn fodlon cefnogi’r gymanfa.

**Cyfeiriannu**
Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 fore o hwyl yn cymryd rhan mewn cystadlaethau cyfeiriannu yn Llanberis. Bu’r criw yn brysur yn ymarfer eu sgiliau darllen map a sgiliau cydweithio. Llongyfarchiadau i Beca D, Tanwen, Ffion N, Maija, Mika a Jenny sydd wedi cael eu dewis i fynd ymlaen i’r cam nesaf. Pob lwc i chi!

**Anti Shirley**
Hoffai’r ysgol estyn eu cydymdeimlad i Anti Shirley yn ystod ei phrofedigaeth ddiweddar. Braf eich cael chi’n ôl Anti Shirley.

## Ysgol Bodfeurig

**Cymanfa Ganu Mynydd Llandygái**



Dyma’r criw a fu’n diddanu’r gynulleidfa yn y Gymanfa Ganu yn eglwys Santes Fair ac Ann. Llongyfarchiadau mawr iawn i chi am berfformio mor dda ac am gynrychioli’r ysgol.

**Ymweliad â Stone Science**
Yn ddiweddar bu Dosbarth Idwal (Derbyn/Blwyddyn 1) ar ymweliad â Stone Science, Pentraeth, Ynys Môn. Roedd y plant wedi dysgu llawer o wybodaeth am fywyd y dinosoriaid. Cafodd y plant weld llawer o wrthrychau ac arteffactau diddorol iawn.

**Dawns a Drama**



Diolch i Alison ddaeth i ymweld â’r ysgol yn ddiweddar i roi gweithdy dawns a drama i bawb. Cafodd pob dosbarth dro yn blasu gweithgareddau Zumba a drama. Cafodd pawb amser bendigedig!

**Cyfeiriannu**
Aeth disgyblion dosbarth Ogwen i Lanberis i gystadlu mewn cystadleuaeth gyfeiriannu yn ddiweddar. Cafodd pawb amser da yn cyfeiriannu o amgylch Llyn Padarn a’r ardal. Llongyfarchiadau i Charlie, Llawen a Gavin ddaeth yn drydydd! Byddant yn mynd ymlaen i gynrychioli’r ysgol yn yr ŵyl gyfeiriannu nesaf yng Nglynllifon - pob lwc iddynt!

## Ysgol Abercaseg

**Noson o Adloniant**



Cymerodd rhai o ddisgyblion dosbarth Ffrydlas ran mewn cyngerdd a gynhaliwyd yn Ysgol Dyffryn Ogwen i godi arian tuag at Ymchwil Cancr. Mwynhaodd pawb y profiad o gael cydganu gyda'u ffrindiau a chael cefnogi achos mor deilwng. Mae'n debyg mai dyma'r tro olaf iddynt wneud hynny fel disgyblion o Ysgol Abercaseg, gan eu bod yn symud i Ysgol Pen-y-bryn ym mis Medi.

**Chwarae gemau yn Y Bala**



Cafodd rhai o 'Ddreigiau Caseg' a 'Bydis Buarth' yr ysgol ymweld â'r Eisteddfod yn Y Bala yn ystod gwyliau'r Sulgwyn. Fe'u gwahoddwyd i fod yn rhan o lansiad swyddogol 'Cyfrifiad Siarter Iaith Ysgolion Gwynedd' ym mhabell y Cyngor ar y maes. Bu'r Dreigiau a'r Bydis wrthi'n chwarae gemau clapio gyda Mair Tomos Ifans a 'Dreigiau Llyfni' o Ysgol Brynaerau, ac yna'n dysgu rheolau'r gêm i 'Ddreigiau Doeth', Ysgol Pen-y-bryn a disgyblion ysgolion Tregarth a Llanllechid. Braf oedd gweld pawb yn mwynhau, er mae'n debyg mai uchafbwynt y dydd i'r mwyafrif ohonynt oedd cael ymweld â'r ffair ar y maes cyn ei throi hi’n ôl am Fethesda!!

**Ffair Gyfnewid**
Gan fod plant yr ysgol wedi dymuno cael mwy o lyfrau gwybodaeth er mwyn dysgu mwy am y byd o’u cwmpas penderfynodd y Sgwad Syniadau drefnu gweithgaredd codi arian ac aethant ati i drefnu ffair gyfnewid yn yr ysgol. Ar y diwrnod roedd y plant yn cael dod â llyfr neu gêm nad oeddent eu hangen bellach gyda hwy i’r ysgol ac yn ystod y dydd bu pawb yn cyfnewid eu pethau gan dalu 50c am gymryd rhan yn y gweithgaredd. Roedd pawb wedi eu plesio’n arw yn cael mynd adref gyda’u hadnoddau newydd ac roedd hefyd yn ddull da o ail-gylchu!

**Hwyl yn dawnsio!**
Cafodd holl blant yr ysgol amser gwerth chweil yn ddiweddar mewn sesiwn o ddawns gydag Alison o Blas Ffrancon. Roedd hi wedi dod draw atom i roi blas ar y gweithgareddau hwyliog sy’n digwydd ym Mhlas Ffrancon bob wythnos ar gyfer hyrwyddo iechyd a ffitrwydd plant yr ardal. Yn sicr mae’r profiad wedi ysgogi’r plant ac mae nifer fawr ohonynt wedi datgan y byddant wrth eu boddau’n cael mynychu’r dosbarthiadau. Diolch yn fawr iawn i Alison.

### Dyddiadau pwysig

**Gorffennaf 1af** rhwng 9:30-11,00 Plant fydd yn cychwyn yn y dosbarth meithrin ym mis Medi yn ymweld â'r ysgol.
**Gorffennaf 3ydd** am 6.00 Ffair Haf Ysgol Abercaseg a gynhelir yn yr ysgol. Croeso cynnes i bawb.
**Gorffennaf 14eg** am 2:30 Gwasanaeth Gadael Blwyddyn 2
**Gorffennaf 15fed** am 1:15 Mabolgampau'r Ysgol

Copa

Siop Trin Gwallt a Harddwch

**Bethesda 600094**
Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal “cut throat”)

## Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
**Oriau Agor**
**Llun – Gwener: 6.00 - 11.00**
**Sadwrn: 3.30 – 12.00**
**Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00**
**01248 600219**
**www.douglas-arms-bethesda**
Cewch groeso cynnes gan Gwyn, Christine a Geoffrey

## CAFFI COED Y BRENIN

**1 Rhes Buddug, Bethesda**

**Ffôn: 01248 602550**

karena@agoriad.org.uk

**Bwyd cartref blasus**
***(mewn awyrgylch cyfeillgar)***

**Cinio arbennig bob dydd Iau**

**Bwyd i’w gario allan**

**Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati**
***(yn y caffi neu mewn lle o’ch dewis chi)***

**Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd**

**Prisiau rhesymol**

## BISTRO’R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon o bob math – dathlu pen-blwydd ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
**Londri Coed y Brenin**
wneud eich golchi

## Gareth Williams

**Trefnydd Angladdau**

**Crud yr Awel**
**1 Ffordd Garneddwen**
**Bethesda**

**Ffôn: (01248) 600763 a 602707**

**GWASANAETH DYDD A NOS**

## DAFYDD CADWALADR

**Cynhyrchion Coedlannol**

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i’r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

**01248 605207**

## Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS

FINE ART TRADE GUILD

**Pob math o waith trydanol**

## Huw Jones

**Ymgymerwr Trydanol**
Trydanwr cymwysedig gyda phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
**Ffôn: 01248 602480**

## Londis Bethesda

☎ 01248 605566
**Archfarchnad hwylus**
**Gwasanaeth personol**
**gyda’r pwyslais ar y cwsmer**
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
**Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr**
**7 diwrnod yr wythnos**

STEPHEN JONES
†
TREFNYDD ANGLADDAU

**Hefyd ymgymryd â gwaith cerrig beddi: adnewyddu neu o’r newydd**

Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

**Gwasanaeth personol ddydd a nos**

## JOHN ROBERTS



**Paentiwr**
**Papurwr**
**Teilsiwr**

**Symudol: 07747 628650**
**Ffôn: 01248 600995**

## C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

| | |
|---|---|
| Bethesda | 01248 600045 |
| Caernarfon | 01286 676070 |
| Llangefni | 01248 751677 |

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Croeso i gyfrifon masnachol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
**Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y**

| | |
|---|---|
| Mynytho | 01758 730768 |
| LLanrwst | 01492 640794 |
| Siop yn Llanrwst | 01492 640794 |

**Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni**

# Clwb Rygbi Bethesda

**Prif Gystadleuaeth Gogledd Cymru - Plât**

Ofer fu ymdrechion Clwb Rygbi Bethesda pan heriwyd Clwb Rygbi Caernarfon am brif gystadleuaeth Gogledd Cymru - Plât ym Mharc Eirias, Bae Colwyn ddydd Sadwrn Mai 3ydd. Colli fu ein hanes, o 20 pwynt i saith.

Nid oedd y garfan ar ei chryfaf am nifer o resymau - anafiadau, gwaharddiadau a rhai aelodau ar eu gwyliau. Gorfu i Fethesda ddibynnu ar ddau o hogiau profiadol aeddfed, Graham Davies a Darren Griffiths yn safle rhif 9 a maswr a rhoddodd y ddau berfformiad clodwiw. Serch hynny y blaenwyr oedd yn disgleirio gyda'r capten Paul Thomas yn dangos esiampl dda drwy gario'r gêm tuag at Gaernarfon yn gyson.

Roedd yn amlwg, er bod blaenwyr Bethesda yn gyfartal â blaenwyr eu gwrthwynebwyr, fod olwyr Caernarfon yn dipyn mwy sionc a bywiog. Er hyn dim ond dau gais a sgoriodd Caernarfon a chafodd Bethesda gais ychydig ar ôl hanner amser, wedi gwaith gwych gan y blaenwyr a arweiniodd i'r blaen asgellwr Rhys Williams sgorio. Trosodd Rhys Jones i ddod â saith pwynt i Fethesda.

Caernarfon gariodd y dydd ond roedd ymdrechion Bethesda wedi sicrhau fod rhaid i'r "Cofis" weithio'n galed i gael y fuddugoliaeth.

Braint oedd i "hogia Bethesda" fod yn rhan yn un o ddyddiau mawr Undeb Rygbi Gogledd Cymru pan oedd dwy gêm derfynol yn cael eu cynnal ar Barc Eirias. Fel y dywedodd Griff Ellis Williams, aelod o'r tîm rheoli, "Braf ein bod ni yma".



**Carfan Bethesda:** Paul Thomas (capten) Gareth Ogwen Williams, Lee Sherlock, Liam Williams, David Buckley, Adam Williams, Iwan Williams, Rhun Morris, Arwyn Griffiths, Dylan Williams, Rhys Williams, Stephen Eames, Graham Davies, Rhys Jones, Darren Griffiths, Daniel Ogwen Jones, Dylan Hughes, Huw Williams, Tomos Gashe, Robart Muldoon, Llion Lloyd, Tom Jones. DYFARNWR Siôn Wynne Cynorthwywyr Haydn Owen ac Alun Thomas

# Bowlio

Diwedd mis Mehefin, a dyna ni hanner ffordd drwy'r tymor yn barod. Prin iawn yw llwyddiannau'r clwb hyd yma, ond mae'n rhaid nodi perfformiadau clodwiw Elfed Bullock a Siôn Guto. Cafodd 3 o'n chwaraewyr ieuengaf y fraint o chwarae i dîm Cymru dan 18 oed yn erbyn Glannau Mersi yn ystod mis Mai ac mae'r tri wedi cael eu dewis i chwarae dros Gymru eto yn erbyn Cumbria ar lawnt yr Oval yn Llandudno ar 8 Mehefin. Da iawn hogiau, a daliwch ati!

Ddydd Sul, 6 Gorffennaf fe gynhelir Cystadleuaeth i Barau, Cynghrair nos Lun a nos Fercher ym Methesda, a ddydd Sul 24 Awst byddwn yn cynnal ein Cystadleuaeth Agored i Barau, gyda gwobrau o hyd at £300.

Dyma restr o rai gemau sydd i'w chwarae ym Mharc Villa am weddill y tymor. Galwch heibio am sgwrs a phaned o de ac i wylio'r hogiau lleol yn dangos eu doniau.



**Llun: Siôn Guto Roberts yn y canol a phob ochr iddo mae Callum Sorfleet o Fangor a Sam Whitehead o Dalybont.**

---

# CYFROL CRIW'R BEDOL I BAWB!



Mae dosbarth cynganeddu a sefydlwyd ym Methesda wedi cyhoeddi ei ail gyfrol o gerddi. Yng Nghanolfan Cefnfaes y dechreuodd y criw gyfarfod ym mis Chwefror 2004, cyn symud i festri Capel Jerusalem. Erbyn hyn maen nhw wedi symud i blwy' Llanddeiniolen, gan gyfarfod bob nos Fercher yn nhafarn Y Bedol, Bethel. Fel rhan o ddathliadau'r grŵp yn 10 oed, mae athrawes y dosbarth, Karen Owen, wedi casglu ynghyd gerddi gorau'r aelodau dan y teitl 'Mae Eleni'n Ddeng Mlynedd...' .

"Mae aelodau'n dal i ddod o Ddyffryn Ogwen, yn ogystal ag o Sir Fôn, Caernarfon... ac mae rhai hyd yn oed wedi mentro o Benrhyn Llŷn ar wahanol gyfnodau! Ac mae croeso, bob amser, i aelodau newydd, wrth gwrs.

"Mae'r llyfr yn gasgliad o gerddi dwys a doniol, cerddi personol a cherddi'n cofnodi digwyddiadau lleol a chenedlaethol," meddai Karen wedyn. "Mae croeso i unrhyw un sydd am brynu copi am y pris rhesymol iawn o £4, gysylltu ag unrhyw aelod o'r dosbarth, neu ag Ysgrifennydd y grŵp, Richard Llwyd Jones ar richard.llwyd@yahoo.co.uk neu 01248 670115."

## GEIRIADUR PRIFYSGOL CYMRU DIGWYDDIAD CYFFROUS

Mae 2014 yn flwyddyn bwysig a chyffrous yn hanes Geiriadur Prifysgol Cymru, gan ein bod yn lansio fersiwn ar-lein, sydd ar gael am ddim i'r cyhoedd. Ddydd Iau, 26 Mehefin, bydd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, yn gwasgu'r botwm fydd yn rhoi'r adnodd gwerthfawr hwn yn fyw ar-lein. Defnyddiwch e – cofiwch, eich geiriadur chi ydyw!

Cewch ragor o wybodaeth ar wefan www.cymru.ac.uk/geiriadur, ac ar gyfrif Facebook - Geiriadur Prifysgol Cymru - ymunwch â'n rhestr ffrindiau, a dilynwch ni ar Twitter (@geiriadur) i gael `gair y dydd'!

**Andrew Hawke, Golygydd Rheolaethol,**
**Geiriadur Prifysgol Cymru**

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

**Festri Bethlehem Talybont**

**TE MEFUS**

Nos Fercher, 2 Gorffennaf
am 7.00 o'r gloch

**Mynediad £2.00**

---

**Marchnad Ogwen**

Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol

**Gorffennaf 12 fed**
Yn y Clwb Rygbi, Bethesda
10am - 2pm

**Awst 9fed**
Neuadd Ogwen
9.30am - 1.30pm

**Bwydydd, Crefftau, Caffi**

www.marchnadogwen.co.uk
Twitter #marchnadogwen
Facebook

---

**GARDDWEST
Y TAIR EGLWYS**

**yng Ngardd Ficerdy Pentir**

Sadwrn 28 Mehefin
1.00 - 4.00 o'r gloch

---

**Clwb Camera Dyffryn Ogwen**

Rydym yn cyfarfod bob pythefnos
rhwng mis Medi a mis Ebrill yng
Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda.

**Noson Groeso - 10 Medi 2014**

Os ydych yn mwynhau ffotograffiaeth ,
ar unrhyw lefel, dewch draw!

---

**Caffi Coed y Brenin**
**BORE COFFI**

**Eisteddfod
Dyffryn Ogwen**

Sadwrn 28 Mehefin
10.00 - 12.00

**Mynediad £1.00**

---

**Canolfan Cefnfaes
BETHESDA**

**GYRFA CHWIST**

Mehefin 24
Gorff. 8, 22 a 29
am 7.00 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

---

**Cyfeillion Ysbyty Gwynedd**

Cynhelir

**Diwrnod Agored**
yng nghartref
Eira a Joe
29 Ffordd Ffrydlas, Bethesda

**Dydd Llun, 30 Mehefin**
**10.00 y bore - 10.00 yr hwyr**

Mynediad £1.00

Croeso Cynnes i Bawb

---

**Sesiynau Siarad i Ddysgwyr**

**Paned a Sgwrs**
Caffi Fitzpatrick
Bethesda
11.00 – 12.00
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis

---

**Grŵp Cymorth Teuluol Epilepsi
Capel Penuel,**
Lôn Cariadon, Bangor
ar drydydd dydd Llun pob mis
rhwng 3.30-5.30.

Croeso i blant, teuluoedd, pobl
ifanc ac oedolion
ac unrhyw un sydd yn cael eu
heffeithio gan Epilepsi.
Am fwy o wybodaeth, ffoniwch
**601715.**

---

**Taith Gerdded Flynyddol
Llyn Ogwen i Fethesda**

**Bore Sadwrn,
19 Gorffennaf, 2014.**

Rhennir yr arian rhwng
Cronfa Cancr a Liwcemia mewn
Plant (CLIC)
a Chronfa Apêl Sion Guto.

Cysylltwch gyda Raymond neu
Ann Tugwell ar 01248 601077
am wybodaeth bellach.

---

Mae disgyblion blynyddoedd
ysgol 1965-1972 yn dathlu eu
pen-blwydd yn 60 oed eleni.
Dewch am ddiod, sgwrs a hel
atgofion i westy'r Douglas nos
Sadwrn, 12 Gorffennaf.
Am fwy o fanylion, cysylltwch â
Margaret Williams (600148) neu
Marian Powell (07765 930757)

---

"FFONIWCH OS AM GAEL
MWY O 'FISITORS' DROS
YR HAF"

tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk

DIONI

